# Pecyn Dogfen Cyhoeddus

At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor Safonau

Dyddiad: 3 Mawrth 2017

Rhif Union: 01824 706204

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Aelod o'r Pwyllgor,

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR SAFONAU, DYDD GWENER, 10 MAWRTH 2017** am **10.00 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1: GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FYNYCHU'R RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD** (Tudalennau 5 - 6)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd yn un i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 7 - 16)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr, 2016 (copi ynghlwm).

**5 HYGYRCHEDD GWYBODAETH GAN GYNGHORAU DINAS, TREF A CHYMUNED – ADOLYGIAD BLYNYDDOL**

Derbyn adroddiad llafar gan Julia Hughes (Aelod Annibynnol).

**6 PARATOI ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CADEIRYDD AR GYFER Y CYNGOR LLAWN** (Tudalennau 17 - 24)

Ystyried adroddiad gan y Dirprwy Swyddog Monitro (copi ynghlwm) yn cyflwyno Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd i'w ystyried cyn ei gyflwyno i'r Cyngor llawn.

**7 LLYFR ACHOSION COD YMDDYGIAD - OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU** (Tudalennau 25 - 36)

Ystyried adroddiad gan y Swyddog Monitro (copi ynghlwm) yn hysbysu'r aelodau o gyhoeddiadau diweddaraf Llyfr Achosion Cod Ymddygiad yr Ombwdsmon.

**8 HYFFORDDIANT – DEUNYDD SEFYDLU CYMDEITHAS LLYWODRAETH LEOL CYMRU** (Tudalennau 37 - 86)

Ystyried adroddiad gan y Swyddog Monitro (copi ynghlwm) yn hysbysu'r aelodau o'r deunyddiau sefydlu a gynhyrchwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) ar gyfer hyfforddi aelodau newydd ac aelodau sy'n dychwelyd ar ôl Etholiadau Llywodraeth Leol ym mis Mai 2017.

**9 PROSES DATRYSIAD LLEOL AR GYFER CYNGHORAU DINAS/TREF/CYMUNED**

Derbyn adroddiad llafar gan y Swyddog Monitro.

**10 ADOLYGU PROTOCOL HUNAN REOLEIDDIO'R CYNGOR**

Derbyn adroddiad llafar gan y Swyddog Monitro.

**11 PAPUR GWYN – DIWYGIO LLYWODRAETH LEOL CADERNID AC ADNEWYDDIAD**

Derbyn adroddiad llafar gan y Swyddog Monitro.

**12 PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD**

Nodi presenoldeb aelodau'r Pwyllgor Safonau yng nghyfarfodydd Cynghorau Sir, Tref a Chymuned a derbyn eu hadroddiadau.

**13 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR SAFONAU** (Tudalennau 87 - 88)

Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau (copi ynghlwm).

## 14 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau am 10.00am ar ddydd Gwener 30 Mehefin 2017 yn Ystafell Gynadledda 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun.

## RHAN 2: EITEMAU CYFRINACHOL

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o’r cyfarfod yn ystod trafod y mater(ion) canlynol oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig fel y diffinnir ym Mharagraff 12 & 13 Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf, ei datgelu.

## 15 COD YMDDYGIAD - RHAN 3 DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

(Tudalennau 89 - 90)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Swyddog Monitro (copi ynghlwm) sy’n rhoi trosolwg o gwynion yn erbyn aelodau a gyflwynwyd gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

**AELODAETH**

Aelodau Annibynnol:
Ian Trigger (Cadeirydd), Mrs Paula White, Julia Hughes a/ac Anne Mellor

Aelod Cyngor Tref/Cymuned:
Y Cynghorydd David E Jones

Cynghorwyr Sir:
Y Cynghorydd Barry Mellor
Y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies

**COPIAU I’R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a’r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

**Cod Ymddygiad Aelodau**

## DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

| | |
|---|---|
| Rwyf i,<br>(enw) | |
| *Aelod /Aelod cyfetholedig o<br>*(*dileuer un)* | **Cyngor Sir Ddinbych** |

**YN CADARNHAU** fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
*(*dileuer un)*

| | |
|---|---|
| Dyddiad Datgelu: | |
| Pwyllgor (nodwch): | |
| Agenda eitem | |
| Pwnc: | |
| Natur y Buddiant:<br>*(Gweler y nodyn isod)** | |
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**PWYLLGOR SAFONAU**

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun LL15 1YN, Dydd Gwener, 2 Rhagfyr 2016 am 10.00 am.

**YN BRESENNOL**

Aelodau Annibynnol Julia Hughes, Anne Mellor, Ian Trigger (Cadeirydd) a Paula White ynghyd â'r Cynghorydd David Jones

**HEFYD YN BRESENNOL**

Swyddog Monitro (GW) a Gweinyddwyr Pwyllgor (KEJ a SJ)

**PARCHEDIG WAYNE ROBERTS - TEYRNGED**

Cyfeiriodd yr aelodau at golled drist y Parchedig Wayne Roberts, cyn-aelod o'r Pwyllgor Safonau, a fu farw'n ddiweddar mewn amgylchiadau trasig. Talwyd teyrnged i'r Parchedig Roberts o ran ei gyfraniad i gyfarfodydd yn ystod ei aelodaeth ar y pwyllgor, a'i waith yn y gymuned ehangach.

**1 YMDDIHEURIADAU**

Y Cynghorydd Barry Mellor

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu.

**3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD**

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

**4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 16 Medi 2016.

**Materion yn codi -**

Tudalen 9 - Eitem Rhif 6: Adroddiad Blynyddol 2015/16 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) - Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cadeirydd ynghylch sut mae pobl yn cysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, esboniodd y Swyddog Monitro fod gwefan y Cyngor yn cynnwys gwybodaeth am gwynion, ac roedd yn rhoi'r cysylltiadau angenrheidiol a'r manylion cyswllt er mwyn galluogi aelodau o'r cyhoedd i gyflwyno cwyn fel y bo'n briodol. Amlygwyd y gwahaniaethau rhwng y gyfundrefn safonau yn Lloegr hefyd.

Tudalen 10 - Eitem Rhif 7: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru - Llyfr Achosion Cod Ymddygiad - Cadarnhaodd y Swyddog Monitro ei fod wedi ysgrifennu at yr holl Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned yr wythnos honno'n esbonio pwysigrwydd datgan cysylltiadau personol a rhai sy'n rhagfarnu.

Tudalen 10 - Eitem Rhif 8: Presenoldeb mewn Cyfarfodydd - Roedd y pwyllgor wedi cytuno y dylai rhestr o'r holl Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned a ymwelwyd dros y tair blynedd diwethaf gael ei llunio a'i dosbarthu i aelodau. Ymddiheurodd y Swyddog Monitro am yr oedi a chadarnhaodd y byddai'n trefnu i'r rhestr gael ei llunio a'i hanfon allan cyn gynted ag y bo modd. **[GW i weithredu]**

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Medi 2016 fel cofnod cywir.*

[Ar y pwynt hwn, cytunwyd i amrywio trefn y rhaglen ac ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau yn agosach at y diwedd.]

## 5 FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU

Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem yn rhoi gwybod am ei bresenoldeb, gyda'r Swyddog Monitro, yn Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru, 17 Hydref 2016 yn Llangefni. Yn dilyn y cyfarfod hwnnw roedd wedi cael e-bost gan Gadeirydd Pwyllgor Safonau Ceredigion ynghylch y potensial i awdurdodau eraill canolbarth Cymru ymuno â'r Fforwm. Roedd y Cadeirydd wedi cytuno i godi'r mater yng nghyfarfod nesaf y Fforwm i ystyried a allai aelodaeth y Fforwm gael ei hymestyn y tu hwnt i Ogledd Cymru, i ddarparu ar gyfer y rhai sydd â diddordeb mewn ymuno.

Cyflwynodd y Swyddog Monitro'r adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol), yn hysbysu'r pwyllgor o'r materion a drafodwyd yng nghyfarfod y Fforwm a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2016, a fynychwyd hefyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a roddodd gyflwyniad ac ateb cwestiynau, gyda manylion y rhain wedi'u rhoi fel atodiad i'r adroddiad. [Roedd cofnodion cyfarfod y Fforwm wedi bod ar gael yr wythnos honno ac wedi'u dosbarthu yn y cyfarfod].

Wrth gyflwyno'r adroddiad, tynnodd y Swyddog Monitro sylw at y canlynol -

- pwysleisiodd yr Ombwdsmon ei gefnogaeth ar gyfer datrys cwynion a wnaed gan aelodau etholedig yn erbyn ei gilydd yn lleol, ac roedd yn credu y byddai'n ddefnyddiol ymestyn y broses i Gynghorau Tref, Dinas a Chymuned, ond byddai'n fater i bob pwyllgor safonau ystyried
- croesawodd yr Ombwdsmon y gostyngiad yn nifer y cwynion a dderbyniwyd mewn perthynas â chynghorwyr sir ar draws Cymru, ond bu cynnydd yn nifer y cwynion yn ymwneud â chynghorwyr tref a chymuned (tri chyngor tref a chymuned wedi cyfrif am 50 o'r cwynion hynny)
- nododd yr Ombwdsmon fod y rhan fwyaf o'r cwynion wedi'u cau ar ôl ystyriaeth gychwynnol a bod y niferoedd a atgyfeiriwyd at Bwyllgorau Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru'n isel iawn, a oedd yn achos dathlu. Fe fyfyriodd hefyd ynghylch gweithredu ei brawf lles y cyhoedd a ffactorau sydd i'w cymryd i ystyriaeth wrth gymhwyso'r prawf hwnnw, nad oedd yn meddwl a oedd yn cael effaith sylweddol ar y canlyniad hwnnw

- roedd rheoli adnoddau yn parhau i fod yn fater pwysig i'r Ombwdsmon a roddodd wybod am gynnydd mewn cwynion gan y sector iechyd, gyda 75% o adnoddau'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd ar gyfer ystyried cwynion iechyd - yn y cyd-destun hwnnw ni fyddai'n defnyddio'i bwerau i ymchwilio i gwynion lefel isel mewn perthynas ag aelodau etholedig, ond byddai ond yn delio â'r toriadau amod mwyaf difrifol, gan gynnwys camddefnyddio grym, bwlio a llygredd
- yn dilyn eitem yr Ombwdsmon, ystyriodd y Fforwm ei weithrediad yn y dyfodol a chytunwyd ei fod yn parhau i fod yn offeryn defnyddiol ar gyfer dysgu a rhannu arferion. Penderfynwyd y byddai'r Fforwm yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn mewn awdurdod gwahanol yn ei dro, ac yn cael ei gadeirio a'i weinyddu gan yr awdurdod sy'n cynnal, gyda Swyddog Monitro'r awdurdod sy'n cynnal yn bresennol. Byddai Sir Ddinbych yn cynnal y cyfarfod nesaf ym mis Mawrth / Ebrill 2017
- fe wnaeth y Fforwm hefyd ystyried mater ynglŷn â chwblhau'r gofrestr o fuddiannau'n ddwyieithog gan aelodau, a chytunwyd y byddai pob awdurdod yn edrych ar y sefyllfa yn eu hawdurdodau eu hunain. Cafwyd trafodaeth hefyd ynglŷn ag argaeledd hyfforddiant cyfryngu ar gyfer aelodau pwyllgor safonau a all fod yn rhan o'r gweithdrefnau datrysiad lleol. Roedd y Swyddog Monitro'n gwneud ymholiadau pellach yn hynny o beth gyda chydweithwyr AD ar draws Gogledd Cymru, o ystyried y byddai dull cydweithredol o ran hyfforddiant yn helpu i leihau costau.

Cymerodd y Swyddog Monitro'r cyfle hefyd i ymhelaethu ar y cwestiynau a roddwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r atebion a roddwyd, a oedd wedi'u cynnwys yn yr atodiad i'r adroddiad. Tynnwyd sylw'r Aelodau at y pwyntiau canlynol o ddiddordeb -

- roedd rhai cwestiynau yn ymwneud â'r protocol datrys yn lleol, ac fe atgoffodd y Swyddog Monitro'r aelodau o'r materion a godwyd ym Mesur Llywodraeth Leol drafft (Cymru) a ymgynghorwyd arno'n flaenorol, gan gynnwys yr awgrym bod Cynghorau Dinas / Tref / Cymuned yn dod yn fwy o faint, a allai gael effaith ar yr adnoddau a oedd ganddynt i gefnogi hyn
- nodwyd nad oedd pob aelod Cyngor Dinas/ Tref/ Cymuned yn aelodau o Un Llais Cymru, ond y gobaith oedd y gallent i gyd ddefnyddio'r model drafft roeddent wedi'i gynhyrchu ar brotocolau datrys yn lleol os oeddent yn dymuno gwneud hynny
- roedd canllawiau ar sancsiwn wedi'u cyhoeddi gan Banel Dyfarnu Cymru, y gall y pwyllgor safonau eu hystyried yn ddefnyddiol, a chytunodd y Swyddog Monitro i geisio cael y canllawiau i'w dosbarthu i aelodau'r pwyllgor **[GW i weithredu]**
- cafwyd rhywfaint o drafodaeth ar yr SI newydd h.y. gwaharddiad dros dro yn unig o fewn tymor presennol y swydd ac fe gynghorodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod y mater yn ymwneud â nifer fach iawn o achosion yn unig. Dywedodd y Cadeirydd nad oedd y mater wedi'i gyfyngu i aelodau etholedig ac roedd hefyd yn digwydd mewn sectorau eraill lle'r oedd unigolion yn tyngu llw ar gyfer ymgymryd â swydd o dan Ddeddf benodol - unwaith nad oedd yr unigolyn yn y swydd honno, nid oedd grym i orfodi cosb yn eu herbyn
- eglurwyd pe na bai'r gofyniad statudol i Gynghorau Dinas/ Tref/ Cymuned gael gwefan yn cael ei fodloni, nid oedd yn fater i'w ystyried o dan y Cod, ond gall fod yn gyfystyr â chamweinyddu. Nid oedd gan Ombwdsmon Gwasanaethau

Cyhoeddus Cymru bwerau rhagweithiol a byddai angen cwyn gan y cyhoedd iddo ymchwilio i'r mater. Cyfeiriodd y Cynghorydd David Jones at y broses datgan cysylltiad ar gyfer Cynghorau Dinas / Tref / Cymuned, a chadarnhaodd y Swyddog Monitro bod rhywfaint o ddryswch wedi bod yn y cyswllt hwnnw ac y byddai'n edrych i weld a oedd yna ofyniad statudol iddynt gyhoeddi cofrestr o fuddianna **[GW i weithredu].**

Roedd Sir Ddinbych wedi codi dau gwestiwn gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fel a ganlyn -

**(1) Mae pryder y gall y cyhoedd golli hyder wrth orfodi'r Cod Ymddygiad, os ydynt yn teimlo nad yw cwynion dilys wedi cael eu hystyried yn deilwng o ymchwiliad. A fyddai'r Ombwdsmon yn ystyried cyfeirio achosion y mae ef wedi penderfynu peidio ag ymchwilio iddynt, i'w hymchwilio'n lleol?**

Teimlai'r Ombwdsmon y gallai'r cyhoedd golli hyder os byddai cwynion dibwys yn cael eu hymchwilio, a oedd hefyd y rheswm y tu ôl i brawf lles y cyhoedd. Roedd achosion wedi cael eu cyfeirio ar gyfer ymchwiliad lleol yn y gorffennol ond roedd y nifer yn isel, ac roedd peth amharodrwydd gan Swyddogion Monitro o ystyried y galw ar eu hadnoddau - fodd bynnag, roedd y gallu i gyfeirio materion yn dal yn berthnasol ac roedd modd gwneud hynny os tybiwyd bod hynny'n briodol. Un o'r ffactorau a oedd i'w cymryd i ystyriaeth, oedd tystiolaeth o gwynion tebyg wedi eu gwneud o'r blaen a phan ofynnwyd gan y Cadeirydd pa mor hir y cadwyd cwynion ar ffeil, cyfeiriodd at wybodaeth a gadwyd yn y swyddfa ac yn y dyfodol, byddai'n sicrhau eu bod yn parhau i fod yn ymwybodol o'r hyn oedd yn digwydd.

Nid oedd y Cadeirydd o'r farn bod hwnnw'n ymateb boddhaol o ystyried ei fod yn ymddangos nad oedd unrhyw system gadarn ar gyfer cadw cwynion lefel isel, gyda dibyniaeth ar wybodaeth staff unigol yn golygu y gallai gwybodaeth werthfawr gael ei cholli yn dilyn newidiadau staffio. Cyfeiriodd y Swyddog Monitro at y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol sydd ar y gweill a rhoddodd drosolwg cyffredinol o'r newidiadau mewn nifer o ddarpariaethau yn y Ddeddf Diogelu Data, gan gynnwys 'yr hawl i gael eich anghofio' mewn achosion penodol, â'r ddeddfwriaeth ynghylch pa mor hir y gallai gwybodaeth benodol am unigolyn fod ar gadw, a fyddai hefyd yn cael effaith.

**(2) A yw'r Ombwdsmon yn ystyried y byddai gosod safonau gofynnol a hyfforddiant gorfodol ar gyfer Clercod Cynghorau Tref, Dinas a Chymuned yn cynorthwyo i gynnal safonau uchel o ymddygiad, a gweithrediad Gweithdrefnau Datrysiad Lleol yn y Cynghorau hynny?**

Teimlai'r Ombwdsmon y byddai hyn yn fuddiol iawn, ond nid oedd yn rhywbeth y gallai roi adnoddau ar ei gyfer. Fodd bynnag, byddai'n cefnogi drwy fynychu cynadleddau a hyrwyddo'r materion.

Amlygodd y Cadeirydd mai thema gyffredinol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru oedd datrys yn lleol. Er bod rhywfaint o gydymdeimlad â'r Ombwdsmon wrth reoli'r pwysau ar ei adnoddau, y canlyniad oedd mwy o bwyslais ar ddatrys yn lleol a phwysleisiodd y Cadeirydd bwysigrwydd pwyllgorau safonau mewn sefyllfa i gyfrannu at y broses honno lle bo modd.

Wrth ymateb i'r pwyslais ar ddatrys yn lleol ac o ystyried yr effaith bosibl yn deillio o ddrafft diweddaraf Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) (sydd i fod yn destun ymgynghori ddechrau 2017), cytunodd aelodau ar y camau canlynol a awgrymwyd gan y Swyddog Monitro -

- ystyriaeth yn cael ei rhoi ynghylch pa gamau ymarferol y gellid eu cymryd yn Sir Ddinbych mewn perthynas â'r broses datrys yn lleol ar gyfer Cynghorau Dinas / Tref / Cymuned - dylai hyn gynnwys hyfforddiant, lefel yr ymgysylltiad rhwng cynghorau lleol a rôl y pwyllgor safonau yn y cyswllt hwnnw. O ystyried bod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi croesawu'r templed enghreifftiol drafft ar gyfer protocolau datrys yn lleol a gynhyrchwyd gan Un Llais Cymru, y farn oedd y gallai'r model hefyd helpu i lywio'r broses. Roedd y Swyddog Monitro'n mynychu cyfarfod gyda Chlercod rhai o'r cynghorau tref / cymuned mwyaf yr wythnos ganlynol, a byddai'n mesur barn ar yr awydd am y broses. Cytunwyd y byddai'r pwyllgor yn cael adroddiad yn ôl ar y gwaith hwnnw yng nghyfarfod mis Mawrth
- byddai Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) drafft yn debygol o gynnwys diwygio, a fyddai'n effeithio ar gynghorau dinas / tref / cymuned a sir. Atgoffwyd yr aelodau am y cynigion sy'n codi o'r Mesur blaenorol drafft, gan gynnwys awgrymiadau am safonau gofynnol ar gyfer cynghorau a chynghorwyr angen adrodd i bwyllgorau safonau. O ystyried y materion diwygio posibl a'r effaith ar bwyllgorau safonau o ganlyniad i gynigion yn y Mesur newydd drafft, cytunodd y pwyllgor i dderbyn adroddiad yn ôl ym mis Mawrth (ar yr amod bod y Mesur drafft wedi'i gyhoeddi mewn pryd, ac amserlenni ymgynghori'n ddigonol - derbyniwyd y efallai y bydd angen cynnull cyfarfod arbennig os oes angen).

Diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog Monitro am ei adroddiad cynhwysfawr a dod â'r materion mwyaf perthnasol gerbron sylw'r pwyllgor.

***PENDERFYNWYD -***

*(a) derbyn a nodi'r adroddiad ar y materion a drafodwyd yn y cyfarfod diwethaf o Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru;*

*(b) bod adroddiad ar broses datrys yn lleol ar gyfer Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Mawrth 2017* ***[GW i weithredu]****, a*

*(c) bod adroddiad ar Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) drafft yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Mawrth 2017 (os yw amserlenni'n caniatáu)* ***[GW i weithredu]****.*

Ar y pwynt hwn (11.10 am) cymerodd y cyfarfod egwyl am luniaeth.

**6 PROTOCOL HUNAN REOLEIDDIO**

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol), ynglŷn â'r potensial i gynnwys cwynion gan swyddogion y cyngor am ymddygiad aelodau etholedig ym Mhrotocol Hunan Reoleiddio'r Cyngor, yn ôl cais y pwyllgor. Roedd

copi o'r Protocol Hunan Reoleiddio ynghyd â Phrotocol ar gyfer Cysylltiadau Aelodau / Swyddogion wedi eu cynnwys fel atodiadau i'r adroddiad.

Eglurodd y Swyddog Monitro fod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi bod yn bleidiol iawn i weithdrefnau datrys yn lleol ac er bod Protocol Hunan Reoleiddio'r Aelodau'n ymdrin fel arfer gyda datrys cwynion aelod yn erbyn aelodau eraill yn lleol, y dull ffurfiol i gael cymorth ar gyfer cwynion swyddogion yn erbyn aelodau, oedd trwy gwyno i'r Ombwdsmon. Mewn gwirionedd, roedd proses anffurfiol fel arfer yn digwydd yn cynnwys y Pennaeth Gwasanaeth perthnasol a'r Swyddog Monitro i gyrraedd datrysiad boddhaol, ac roedd y dulliau hynny hefyd wedi'u cynnwys yn y Protocol ar gyfer Cysylltiadau Aelodau / Swyddogion o ran sut y dylid ymdrin ag achosion o dorri amodau, ynghyd â chyfeiriad at weithdrefnau mwy ffurfiol a allai arwain at y Pwyllgor Safonau. Fodd bynnag, nid oedd y newidiadau cyfatebol i Brotocol Hunan Reoleiddio'r Aelodau, i gynnwys cyfeiriad at brosesau datrys cwynion swyddogion yn lleol yn erbyn aelodau wedi'u gwneud, o ganlyniad i ddatblygiad datrysiad lleol a oedd yn ei ddyddiau cynnar ar y pryd. Cyfeiriwyd hefyd at ymchwil a gynhaliwyd gydag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, a oedd yn awgrymu darlun cymysg mewn perthynas â'r defnydd o weithdrefnau o'r fath ar gyfer materion a godwyd gan swyddogion. Darparodd y Swyddog Monitro nifer o enghreifftiau i ddangos sut y gallai cwynion a wneir gan swyddogion ac aelodau gael eu datrys yn erbyn aelodau.

Yn ystod y drafodaeth, amlygwyd yr angen am ddulliau mwy ffurfiol yn y Protocol Hunan Reoleiddio ar gyfer cwynion swyddogion, ynghyd â'r angen am hyblygrwydd. Teimlai'r Aelodau mai pwyslais ar ddatrysiad anffurfiol yn y lle cyntaf fyddai'r dull gorau, gyda gwrandawiad ffurfiol fel y dewis olaf. Cytunwyd bod y Swyddog Monitro'n adolygu'r protocol ar y sail honno, gan ystyried arfer gorau awdurdodau eraill a modelau a ddefnyddir, gan gynnwys templed Un Llais Cymru. Teimlai'r Cadeirydd hefyd y byddai'n fater i Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru ei ystyried, i geisio barn a rhannu gweithdrefn datrys yn lleol. Cytunodd y Swyddog Monitro y gall fod rhinwedd mewn cael Protocol Gogledd Cymru y mae modd ei drosglwyddo i Gynghorau Dinas / Tref / Cymuned. Cytunwyd i dderbyn adroddiad yn ôl i'r pwyllgor ar hynny ym mis Mawrth.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Swyddog Monitro yn cynnal adolygiad o'r Protocol Hunan Reoleiddio ac adrodd yn ôl i'r pwyllgor ar hynny ym Mawrth 2017* ***[GW i weithredu].***

## 7 OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU – LLYFR ACHOSION COD YMDDYGIAD RHIFYN 10

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn hysbysu aelodau o'r rhifyn diweddaraf o Lyfr Achosion Cod Ymddygiad yr Ombwdsmon sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng mis Gorffennaf a Medi 2016 (Atodiad 1 i'r adroddiad).

Cynhyrchwyd y Llyfr Achosion bob chwarter blwyddyn ac roedd yn rhoi crynodeb o'r cwynion cod ymddygiad yr oedd yr Ombwdsmon wedi gorffen ymchwilio iddynt yn ystod y cyfnod perthnasol. O'r 8 o gwynion a adroddwyd, roedd 2 yn ymwneud â datgelu cysylltiadau, 2 i wrthrychedd a phriodoldeb, ac 1 yr un o ran atebolrwydd a

bod yn agored, dyletswydd i gynnal y gyfraith, cydraddoldeb a pharch, ac anhunanoldeb a stiwardiaeth.  O'r 8 ymchwiliad a gynhaliwyd, arweiniodd 4 achos at ganfyddiad nad oedd unrhyw dystiolaeth o doriad, daeth 3 i'r casgliad, er bod achosion o doriad wedi bod, nid oedd angen gweithredu (nid ystyriwyd er lles y cyhoedd i olrhain y materion hynny ymhellach), a chyfeiriwyd 1 at y pwyllgor safonau.  Nid oedd unrhyw achosion wedi'u cyfeirio yn uniongyrchol at Banel Dyfarnu Cymru ac nid oedd unrhyw un yn gysylltiedig ag unrhyw aelod etholedig o unrhyw gyngor yn Sir Ddinbych.

Nododd yr Aelodau fod yr adroddiad yn rhoi syniad o'r mathau o gwynion a ymchwiliwyd gan yr Ombwdsmon.  Tynnodd y Cadeirydd sylw at yr achos a gyfeiriwyd at y pwyllgor safonau, a oedd yn cynnwys aelod yn methu â gwneud datganiad priodol o gysylltiad ac wedi cael bod yn rhan o drafodaethau mewn cyfarfod pwyllgor cynllunio, a hynny'n amhriodol.  Canfu'r pwyllgor safonau fod y cynghorydd wedi mynd yn groes i'r cod ymddygiad a gosodwyd gwaharddiad 2 fis. Roedd y cynghorydd wedi apelio i Banel Dyfarnu Cymru a gytunodd bod amod wedi'i dorri, a chynyddodd y gwaharddiad i 3 mis.   Roedd yn bwysig cofio y gallai canlyniad apêl hefyd arwain at gosb lymach.

***PENDERFYNWYD*** *nodi'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn Llyfr Achosion y Cod Ymddygiad.*

## 8 PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD

Roedd yr Aelodau wedi gofyn o'r blaen am restr o Gynghorau Dinas/ Tref/ Cymuned a oedd wedi cael ymweliad yn ystod y tair blynedd diwethaf.  Awgrymodd yr Aelod Annibynnol Julia Hughes y byddai hefyd yn ddefnyddiol i'r rhestr honno nodi lle'r oedd clercod lleol wedi newid dros y deuddeg mis diwethaf, a'r cynghorau hynny nad oedd wedi bod yn destun ymweliad yn ddiweddar, y gall aelodau'r pwyllgor safonau gymryd i ystyriaeth wrth gynllunio eu hymweliadau **[GW i weithredu].**

Adroddodd y Cynghorydd David Jones ar y cyfarfod cyswllt blynyddol rhwng cynrychiolwyr y Cyngor Sir a'r Cynghorau Dinas / Tref / Cymuned a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2016 yn Neuadd y Sir, Rhuthun.  Rhoddodd drosolwg o bynciau a drafodwyd oedd yn cynnwys etholiadau'r cyngor ym Mai 2017; cadernid cymunedol, gweledigaeth sirol a sesiwn holi ac ateb.  Cyfeiriodd hefyd at sesiwn gweithdy cynllunio ar gyfer olyniaeth i glercod ac amlygodd bryderon a godwyd am y pwysau a roddir ar gynghorau lleol, yn codi o'r broses archwilio ariannol.  Dywedodd y Cynghorydd Jones y byddai'r mater yn cael ei gymryd gan Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol.  Er nad oedd yn fater i'r pwyllgor safonau, roedd y Cadeirydd yn drist o glywed am y broblem ac yn gobeithio y gallai'r mater gael ei ddatrys. Dywedodd y Swyddog Monitro y gall fod goblygiadau hefyd sy'n deillio o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) sydd ar y gweill ar gyfer cynghorau lleol yn hynny o beth.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn a chofnodi'r adroddiad ar lafar.*

## 9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau i'w hystyried a chytunodd yr aelodau ar yr ychwanegiadau canlynol:-

- Proses Datrys yn Lleol ar gyfer Cynghorau Dinas/ Tref/ Cymuned - Mawrth
- Adolygu Protocol Hunan Reoleiddio'r Cyngor (yn gysylltiedig â'r eitem uchod) - Mawrth
- Mesur Drafft Llywodraeth Leol (Cymru) - Mawrth
- Llyfr Achosion Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru - yn cael ei gynnwys fel eitem sefydlog ar y rhaglen

Eglurodd y Swyddog Monitro fod yr 'Hyfforddiant' wedi'i drefnu ar gyfer mis Mawrth yn cynnwys hyfforddiant a gynhyrchwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar faterion moesegol i gynghorwyr newydd, yn dilyn etholiadau Mai 2017, ynghyd ag unrhyw hyfforddiant arall a gynigir i aelodau newydd fel rhan o'u cyfnod sefydlu a oedd o dan gylch gwaith y pwyllgor safonau.

Cytunodd yr Aelodau y dylai'r rhaglen waith ymddangos yn agos at ddiwedd y rhaglen yn y dyfodol, er hwylustod wrth gofnodi eitemau y cytunwyd arnynt yn ystod y cyfarfod.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar y diwygiadau uchod, bod y Pwyllgor Safonau'n cytuno ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.*

**10 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Nododd yr Aelodau fod cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau wedi'i drefnu ar gyfer 10.00am ddydd Gwener 10 Mawrth 2017 yn Ystafell Gynadledda 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun.

Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau y byddai Sir Ddinbych hefyd yn cynnal Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru ym mis Mawrth / Ebrill 2017.

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

***PENDERFYNWYD*** *dan ddarpariaethau Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem ganlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 ac 13 Rhan 4 Atodlen 12A y Ddeddf.*

**11 COD YMDDYGIAD - RHAN 3 DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000**

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn darparu trosolwg o'r cwynion a wnaed i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn erbyn aelodau ers 1 Ebrill 2014. Nid oedd 13 o achosion wedi cael eu dilyn, roedd 2 achos wedi'u terfynu, a 3 achos heb eu hymchwilio.

Rhoddodd y Swyddog Monitro'r wybodaeth ddiweddaraf am un gŵyn barhaus. Mewn ymateb i gwestiynau, rhoddodd y Swyddog Monitro hefyd ychydig o gyd-destun a rhesymeg y tu ôl i nifer o'r cwynion a briodolir i un cyngor lleol yn arbennig.

***PENDERFYNWYD** y dylid derbyn a chofnodi’r adroddiad.*

Diolchodd y Cadeirydd i'r holl aelodau am eu presenoldeb a'u cyfraniadau, ac i'r Swyddog Monitro am ei arweiniad.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.20 pm.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Eitem Rhif ar y Rhaglen**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **10 Mawrth 2017** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Ian Trigger, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Lisa Jones - Dirprwy Swyddog Monitro** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd 2016** |

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad hwn i'r Pwyllgor Safonau i alluogi'r Pwyllgor llawn gael golwg a chyfrannu at Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd, cyn i'r eitem gael ei chyflwyno i'r cyngor llawn. Mae'r adroddiad drafft ynghlwm fel Atodiad 1.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor hwn y dylai Adroddiad Blynyddol gael ei gyflwyno ar waith y pwyllgor bob blwyddyn, a'i ganfyddiadau a'i arsylwadau, at holl Aelodau'r Cyngor fel rhan o ymgyrch y Pwyllgor i wella safonau ymddygiad moesegol ac i gydymffurfio â Chod Ymddygiad Aelodau.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Bod yr Aelodau yn:

(a) Nodi cynnwys yr adroddiad.
(b) Darparu sylwadau i'r Swyddog Monitro ar gynnwys yr adroddiad i sicrhau ei fod yn adlewyrchu barn y Pwyllgor yn gywir.
(c) Argymell y dylai'r Cadeirydd gyflwyno'r adroddiad i'r Cyngor Llawn.

**4. Manylion yr adroddiad**

Mae'r Adroddiad ynghlwm fel <u>Atodiad 1</u> i'w ystyried.

Yn hytrach na darparu adroddiad cyflawn drafft i'r Pwyllgor, fel sydd wedi digwydd dros y blynyddoedd diweddar, gofynnir i'r Pwyllgor gynghori'r Swyddog Monitro ar feysydd i'w nodi neu sydd i gael blaenoriaeth, y dylai'r Cadeirydd fod yn tynnu sylw'r Cyngor atynt. (gweler paragraff 4.6 o'r atodiad). Mae'r drafft sy'n amgaeedig yn dilyn yr un fformat a gyflwynwyd yn flaenorol, fodd bynnag, pe bai'r Pwyllgor yn teimlo y dylid ei amrywio mewn unrhyw ffordd, yna byddai'r Swyddog Monitro'n falch o glywed safbwyntiau aelodau.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae Pwyllgor Safonau sy’n gwbl weithredol a chynrychioliadol sy’n cynnal y safonau uchel a ddisgwylir gan aelodau yn cynorthwyo i ategu at weithredu swyddogaethau democrataidd y Cyngor.

**6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw oblygiadau i wasanaethau eraill o ganlyniad i’r adroddiad hwn.

**7. Pa ymgynghori a wnaed?**

Nid oes unrhyw ymgynghoriadau wedi eu cynnal ac eithrio ar gyfer yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor Safonau, fel ymgynghorai, i gael adborth ar ei briodoldeb, cynnwys ac argymhellion.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Dim angen.

**9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Nid oes unrhyw risgiau a nodwyd.

**10. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Deddf Llywodraeth Leol 2000; Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001 a Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) (Diwygio) 2006.

**Appendix 1 draft report for Standards Committee**

**Agenda Item No.**

| | |
|---|---|
| **Report To:** | **Full Council** |
| **Date of Meeting:** | **May 2017** |
| **Lead Member / Officer:** | **Ian Trigger, Chair of Standards Committee** |
| **Report Author:** | **Lisa Jones – Deputy Monitoring Officer** |
| **Title:** | **Standards Committee Annual Report** |

## 1. What is the report about?

This is the third Annual Report of Standards Committee to the Full Council and covers the calendar year January to December 2016 only. It was agreed that the Chair will present their report on this basis annually to the Full Council, in order to keep Members informed of trends; issues in respect of compliance with the Members Code of Conduct generally across the County and the work of the Committee in driving up standards of behaviour at the County level, but also at Town, City and Community levels.

## 2. What is the reason for making this report?

It was agreed by Standards Committee that an Annual Report should be presented on the work of the committee and its findings and observations, to all Council Members as part of the Committee's drive to increase standards of ethical behaviour and compliance with the Members Code of Conduct.

## 3. What are the Recommendations?

That Members note the contents of the report.

## 4. Report details

4.1 Standards Committee main role is to monitor adherence to the Members Code of Conduct. All members are aware that their Code is founded (and should be read in conjunction with) the 7 Nolan Principles of Public Life. In Wales there are ten principles (those which were not included in the Nolan recommendations indicated with an *) as follows: -

Selflessness
Honesty

Integrity and propriety
Duty to uphold law *
Stewardship *
Objectivity in decision making
Equality and respect *
Openness
Accountability
Leadership

Standards Committee during 2016 was particularly interested in the final principle of ‘Leadership’ and over this last year was keen to explore any initiatives that the Council may follow which supports the concept of community leaders; similar to the Officer ‘leadership strategy’ which has been developed at County level. This approach may mirror the Public Services Ombudsman for Wales with respect to focusing on leadership and leading by example, particularly in these straitened economic times where scare resources should not be utilised in investigating complaints which have no merit and impact on the Monitoring Officer’s time and that of the office of the Ombudsman himself.

4.2 Standards Committee consists of the following Member types – 2 County Councillors, 4 Independent (co-opted) Members, and 1 Community Council Member (who is not also a twin hatted Member). The majority of the Members are therefore not elected, but are recruited from members of the public as per the requirements of the Standards legislation in Wales. The Committee can also only be quorate when at least half of those Members present are the independents.

Independent members are recruited via a public advert, which is open to all save for strict criteria in respect of previously being an Officer or Member of the Council within certain time frames, being of good standing and having certain attributes as laid down in the legislation. Other than this the opportunity is open to persons from all walks of life, in order to represent the views of the public with regard to the standards they expect of their elected members; and who will also then if required to do so, sit in judgement in respect of any references to the Committee from the Public Services Ombudsman for Wales, where there has been a breach of the Code of Conduct, which falls above the relevant threshold. The decision to investigate a breach, is at the discretion of the Ombudsman; based on the facts, evidence and nature of the breach and whether there is corroborative evidence or not, and if there is a public interest in exhausting time and public financial resources in the investigation and hearing itself; similar to the Crown Prosecution Service (CPS) approach to charges and prosecutions.

The Committee which receives a reference from the Public Services Ombudsman for Wales following his investigation into the complaint, will then sit in a quasi-judicial capacity whist they hear the matter. They have powers to suspend a Member from Office for a maximum of 6 months, during which time they will not be able to act in their capacity as an elected member and will not receive any member salary. The Committee has discretion to impose lesser

sanctions such as a partial suspension from duties or a 'public censure' and to impose other conditions such as attendance at training.

There is also the option where the PSOW seeks the views of the Monitoring Officer and Standards Committee on whether in those circumstances where the Ombudsman decides not to investigate, that the Monitoring Officer may wish to investigate locally. In these circumstances, the Monitoring Officer consults the Chair and/or the Committee and each case is considered on its merits.

4.3 During the past year the Committee met on 4 occasions and 1 meeting was cancelled. The table below sets out a summary of the items under discussion: -

| **Date of Meeting** | **Report Items/Area s** |
|---|---|
| 4/3/16 | • Standing Item: Attendance at meetings<br>• Forward Work Programme<br>• Draft Chairs Annual Report<br>• Accessibility of information from Town, City and Community Councils<br>• Public Services Ombudsman for Wales Code of Conduct Casebook<br>• Clerks Training Event<br>• Draft Local Government Bill<br>• Standing Item : overview of complaints in Denbighshire against Members |
| 8/4/16 | • Rhyl Town Council Application for Dispensation<br>• Changes to the Model Code of Conduct |
| 24/6/16 | Meeting cancelled. |
| 16/9/16 | • Standing Item: Attendance at meetings<br>• Forward Work Programme<br>• PSOW Annual Report<br>• PSOW Code of Conduct Casebooks<br>• Standing Item: Overview of Complaints against Members. |
| 2/12/16 | • Standing Item: Attendance at meetings<br>• Forward Work Programme<br>• NW Standards Committee Forum<br>• County Council's Self Regulatory Protocol<br>• PSOW Code of Conduct Casebook<br>• Standing Item: Overview of Complaints against Members. |

DRAFT

4.4 Standing Items

The 3 standing items the Committee receives is working well : -

(a) Reports from Standards Members in respect of their attendance and observations at Committee and Council meetings whether at County or Community level. Denbighshire County Council Standards Committee is fairly unique in it's proactive approach to raising standards and awareness of the Code of Conduct. Committee Members attend to observe conduct and general effectiveness of the meetings; will then feed back to the Committee, who may make recommendations in respect of any training needs or trends or patterns of conduct in particular communities or at County level.

On the whole, the general ethical framework functions are at a good level in the community and at county level; and this is reflected in the continued downturn in complaints to the PSOW.

As emphasised last year, the Committee is keen to make it clear that their approach in attending in person at meetings is from a support and educational angle; in order to target resources in order to improve standards and the public's confidence in the vital work being done at community level, on a voluntary basis; and not from any enforcement or critical angle. The Committee fully recognises the value such councils and their members add to local communities. The Committee believes that the Code is there to give public confidence, but to also protect members and any efforts to raise this awareness for all serving members is a key theme they continually endorse.

(b) Overview of Complaints lodged against Members with the Public Services Ombudsman for Wales. The report is presented in a closed session and members are provided with a limited amount of detail in respect of the complaint but with sufficient detail to enable members to consider if training or other actions can be recommended to particular town city and community councils which are experiencing issues or an increase in complaints.

(c) Forward Work Programme. This aligns the approach of other council committees and encourages a more strategic approach to the role of the Committee as a proactive one not just reactive to complaints.

4.5 During this year the Chair has attended the North Wales Standards Forum. The Public Services Ombudsman for Wales, Nick Bennett attended on one occasion in order to introduce his approach to dealing with member complaints under the Code of Conduct.

4.6 The Committee wish to draw the Council's attention to the following areas of note as a result of its work during 2016: [STANDARDS COMMITTEE TO DEBATE AND AGREE AREAS AT ITS MEETING ON THE 10TH MARCH 2017]

**5. How does the decision contribute to the Corporate Priorities?**

DRAFT

A fully functioning and representative Standards Committee which upholds the high standards expected of members helps underpin the Council's exercise of its democratic functions.

**6. What will it cost and how will it affect other services?**

There are no implications for other services as a result of this report. .

**7. What consultations have been carried out?**

No consultations have been carried out save that Standards Committee has been consulted on the content.

**8. Chief Finance Officer Statement**

Not required.

**9. What risks are there and is there anything we can do to reduce them?**

There are no identified risks.

**10. Power to make the Decision**

The Local Government Act 2000; the Standards Committee (Wales) Regulations 2001 and the Standards Committee (Wales) (Amendment) Regulations 2006.

DRAFT

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **10 Mawrth 2017** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | **Gary Williams, Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Gary Williams, Swyddog Monitro** |
| **Teitl:** | **Llyfr Achosion Cod Ymddygiad - Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn ymwneud â Llyfr Achosion Cod Ymddygiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon).

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Hysbysu'r Pwyllgor o rifynnau diweddaraf Llyfr Achosion Cod Ymddygiad yr Ombwdsmon.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod aelodau'r Pwyllgor yn nodi'r wybodaeth sydd yn Llyfr Achosion y Cod Ymddygiad.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1 Ers 2013 mae'r Ombwdsmon wedi cynhyrchu Llyfr Achosion Cod Ymddygiad (y Llyfr Achosion). Am beth amser cyn hynny bu'r Ombwdsmon yn cynhyrchu llyfr achosion oedd yn ymwneud â'r cwynion y bu'n eu hymchwilio o safbwynt camweinyddu honedig gan gyrff cyhoeddus. Yn dilyn galwadau i ddefnyddio dull tebyg o safbwynt cwynion cod ymddygiad, dechreuodd yr Ombwdsmon gyhoeddi'r Llyfr Achosion yn 2013.

4.2 Yn wreiddiol, roedd y Llyfr Achosion yn cael ei gyhoeddi ddwywaith y flwyddyn, fodd bynnag mae'r Ombwdsmon wedi penderfynu cynhyrchu'r llyfr achosion yn chwarterol o Ebrill 2015. Mae'r Llyfr Achosion yn cynnwys crynodeb o bob achos y mae'r Ombwdsmon wedi cwblhau ymchwiliad iddynt yn ystod y cyfnod perthnasol.

4.3 Lle mae'r achosion hynny wedi'u cyfeirio at Bwyllgor Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru, bydd dolen yn cael ei darparu yn y fersiwn electronig o'r Llyfr Achosion i'r adroddiad llawn o ganlyniad yr achos a gynhyrchwyd gan y Pwyllgor neu'r Panel perthnasol.

4.4 Cynhyrchwyd y Llyfr Achosion i gynorthwyo Aelodau ac eraill i ystyried a yw'r amgylchiadau y maent yn eu hwynebu yn arwain at dorri'r Cod. Roedd hyn yn

ychwanegiad i gyhoeddi esiamplau gwirioneddol yng Nghanllaw Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ynglŷn â’r Cod.

4.5 Bydd y Llyfr Achosion yn caniatáu mynediad i Bwyllgorau Safonau awdurdod lleol i wybodaeth am y ffordd mae Pwyllgorau Safonau eraill yng Nghymru yn gosod sancsiynau a chael gwared ar achosion ac yn helpu i esbonio pam, mewn rhai achosion y gall yr Ombwdsmon wrthod ymchwilio toriadau honedig ar y sail nad yw honiadau blaenorol tebyg wedi arwain at sancsiwn.

4.6 Mae Atodiad 1 i’r adroddiad hwn yn cynnwys Rhifyn 11 o’r Llyfr Achosion a gyhoeddwyd yn Ionawr 2017, yn cynnwys y cyfnod Hydref 2016 tan fis Rhagfyr 2016. Bydd Aelodau'n nodi mai dim ond 2 grynodeb achos sydd yn y rhifyn hwn o'r llyfr achosion, ac nid oedd y naill na'r llall yn cynnwys atgyfeiriad at y Pwyllgor Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru. Nid oedd yr un o’r achosion hyn yn cynnwys unrhyw Gynghorwyr yn Sir Ddinbych.

4.7 Yn y crynodeb achos cyntaf, daeth yr Ombwdsmon i’r canlyniad nad oedd unrhyw dystiolaeth o dorri’r Cod Ymddygiad. Roedd yr achos hwn yn cynnwys cwyn bod Cynghorydd Sir, yn ystod trafodaeth yn condemnio trosedd casineb mewn cyfarfod yng Nghyngor Sir Fynwy, wedi siarad i amddiffyn iaith hiliol sarhaus. Fe wnaeth yr Ombwdsmon ganfod fod gan Aelodau ddyletswydd i graffu ar bwnc unrhyw drafodaeth, waeth bynnag pa mor sensitif. Byddai ceisiadau i gyfyngu ar y craffu hwnnw a dadansoddiad yn effeithio heb reswm ar ryddid Aelod o fynegiant. Roedd y Cynghorydd dan sylw wedi cefnogi'r cynnig ac nid oedd ar unrhyw adeg wedi awgrymu y dylid goddef hiliaeth neu droseddau casineb. Er bod geiriau’r aelod yn drwsgl ym marn yr Ombwdsmon, nid oedd tystiolaeth ei fod wedi defnyddio iaith hiliol agored neu ffiaidd.

4.8 Roedd yr ail achos a grynhowyd yn y Llyfr Achosion yn cynnwys cwyn bod Cynghorydd Tref Tywyn wedi methu datgan cysylltiad rhagfarnol mewn pwyllgor parc carafannau, er ei fod ef yn berchen ar barc carafannau gerllaw. Roedd yr Aelod dan sylw wedi cael gwybod gan y Swyddog Monitro ei fod â chysylltiad rhagfarnol. Roedd yr Aelod wedi gwneud cais am oddefeb, ond cafodd ei gwrthod. Fe wnaeth yr Ombwdsmon ganfod y gall yr Aelod fod wedi torri Cod Ymddygiad, ond am iddo ymddiswyddo o'r Cyngor Tref wedi hynny, nid oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Nid yw'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol ar y blaenoriaethau corfforaethol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes costau uniongyrchol yn gysylltiedig â’r adroddiad hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad? Dylai’r templed AEC wedi'i lenwi gael ei atodi fel atodiad i'r adroddiad.

Nid oes angen asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer yr adroddiad hwn.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

Nid yw'r mater hwn wedi ei adrodd nac wedi ei ymgynghori arno yn unrhyw le arall.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Does dim goblygiadau ariannol uniongyrchol o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Nid oes unrhyw risgiau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Does dim angen gwneud penderfyniad.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

# Coflyfr

## Y Cod Ymddygiad

Rhifyn 11 Ionawr 2017

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| Dim tystiolaeth o dor-amod | 3 |
| Nid oes angen gweithredu | 4 |
| Cyfeiriwyd at bwyllgor safonau | 5 |
| Cyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru | 6 |
| Mwy o Wybodaeth | 7 |

# Cyflwyniad

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystyried cwynion bod aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gweithredu'n groes i'r Cod Ymddygiad. Mae'r Ombwdsmon yn ymchwilio i gwynion o'r fath o dan ddarpariaethau Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000 a'r Gorchmynion perthnasol a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y Ddeddf.

Pan fydd yr Ombwdsmon yn penderfynu y dylid ymchwilio i gŵyn, mae yna bedwar canfyddiad, sydd wedi'u nodi yn adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000, y gall yr Ombwdsmon eu datgan:

(a) nad oes tystiolaeth bod unrhyw achos o weithredu'n groes i god ymddygiad yr awdurdod;

(b) nad oes angen cymryd unrhyw gamau mewn cysylltiad i'r materion a fu'n destun i'r ymchwiliad;

(c) bod angen cyfeirio'r mater i swyddog monitro'r awdurdod, i'w ystyried gan y pwyllgor safonau;

(d) bod angen cyfeirio'r mater i Lywydd Panel Dyfarnu Cymru ar gyfer dyfarniad gan dribiwnlys (mae hyn yn digwydd mewn achosion mwy difrifol fel arfer).

Yn amgylchiadau (c) a (d) uchod, mae'n ofynnol i'r Ombwdsmon gyflwyno adroddiad am yr ymchwiliad i'r pwyllgor safonau neu dribiwnlys Panel Dyfarnu Cymru, yna byddant hwy'n ystyried y dystiolaeth a ganfuwyd gan yr Ombwdsmon, ynghyd ag unrhyw amddiffyniad a gyflwynir gan yr aelod dan sylw. Hwy hefyd fydd yn penderfynu a oes achos o weithredu'n groes i'r Cod ai peidio, ac os oes, pa gosb (os o gwbl) y dylid ei chyflwyno.

Mae'r Llyfr Achosion Cod Ymddygiad yn cynnwys crynodebau o'r adroddiadau hynny lle cafwyd un o'r canfyddiadau wedi'u gosod allan uchod. Er hynny, yn achos canfyddiadau (c) a (d), bydd y Coflyfr Cod Ymddygiad ond yn cynnwys crynodebau'r achosion hynny y mae gwrandawiadau wedi'u cynnal gan y pwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru, a bod canlyniad y gwrandawiad hwnnw'n hysbys. Mae'r rhifyn hyn yn adrodd ar y cyfnod Hydref i Rhagfyr 2016.

# Crynodebau Achosion

## Dim tystiolaeth o dor-amod

### Cyngor Sir Mynwy – Hybu cydraddoldeb a pharch
Rhif achos 201602663 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Tachwedd 2016

Cafodd yr Ombwdsmon gŵyn a oedd yn ymwneud ag achos a gododd yn ystod trafodaeth yn condemnio trosedd casineb mewn cyfarfod o'r Cyngor ar 28 Gorffennaf 2016 pan siaradodd aelod o Gyngor Sir Fynwy ("y Cynghorydd") i amddiffyn a chyfiawnhau iaith hiliol sarhaus pan yr oedd, yn ei farn ef, wedi cael ei defnyddio heb falais. Yn ogystal â hynny, y Cynghorydd enghreifftiau o iaith o'r fath yn ystod ei anerchiad gan beri tramgwydd.

Yn ystod yr ymchwiliad, canfuwyd bod gan Aelodau ddyletswydd i ystyried unrhyw gynnig a gynigir, gan graffu arno a'i ddadansoddi'n feirniadol. Ni ddylai natur y cynnig dan sylw, ni waeth pa mor sensitif ydyw, gyfyngu ar i ba raddau y gweithredir y swyddogaeth honno, a byddai gorfodi cyfyngiad o'r fath yn effeithio ar ryddid aelod i lefaru, heb gyfiawnhad dros wneud hynny.

Canfu'r Ombwdsmon fod y Cynghorydd wedi dweud yn ei anerchiad ei fod yn cefnogi'r cynnig ond ei fod wedi gofyn am ddiffiniad o'r term trosedd casineb. Ni wnaeth y Cynghorydd awgrymu o gwbl y dylid goddef hiliaeth, senoffobia na throsedd casineb. Canfu'r Ombwdsmon hefyd, er bod geiriad y Cynghorydd yn yr enghreifftiau yn glogyrnaidd, nid oedd tystiolaeth ei fod wedi defnyddio iaith a oedd yn amlwg yn hiliol, senoffobig neu gas, ac nid oedd ei sylwadau wedi'u cyfeirio at un person neu grŵp o bobl ychwaith.

Canfu'r Ombwdsmon nad oedd dim achos o dorri'r Cod Ymddygiad.

## Nid oes angen gweithredu

**Cyngor Tref Tywyn - Datgelu a chofrestru buddiannau**
**Rhif achos 201600999 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Tachwedd 2016**

Gwnaethpwyd cwyn fod y cyn Gynghorydd X wedi methu â datgan buddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu mewn cyfarfod o Bwyllgor Maes Carafanau Ynysymaengwyn ar 16 Mawrth 2016. Cododd buddiant y cyn Gynghorydd X oherwydd ei fod yn berchen ar faes carafanau cyfagos.

Ar 10 Chwefror, roedd y Swyddog Monitro wedi dweud wrth y cyn Gynghorydd fod ganddo fuddiant sy'n rhagfarnu yn y Pwyllgor hwn. Yn dilyn hynny, gwnaeth y cyn Gynghorydd gais am oddefeb gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor i fynychu'r cyfarfodydd hyn, a gwrthodwyd y cais.

Gofynnodd yr Ombwdsmon i'r cyn Gynghorydd ddod am gyfweliad, ond ar 4 Hydref ymddiswyddodd fel Cynghorydd. Roedd yr Ombwdsmon o'r farn y gallai'r cyn Gynghorydd fod wedi torri amodau'r Cod o ran ystyried y cyngor a roddwyd gan y Swyddog Monitro; bod â buddiant personol mewn cyfarfodydd; a datgan buddiant personol a gadael y cyfarfod. Fodd bynnag, gan fod y cyn Gynghorydd X wedi ymddiswyddo, nid oedd angen cymryd camau pellach.

## Cyfeiriwyd at y Pwyllgor Safonau

Nid oes crynodebau yn gysylltiedig â'r canfyddiad hwn

## Cyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru

Nid oes crynodebau yn gysylltiedig â'r canfyddiad hwn

## Mwy o wybodaeth

Rydym yn gwerthfawrogi unrhyw sylwadau neu adborth sydd gennych chi am Coflyfr y Cod Ymddygiad. Yn ogystal, byddem yn fodlon ateb unrhyw ymholiadau sydd gennych ynghylch ei gynnwys. Mae modd anfon unrhyw ohebiaeth o'r fath mewn neges e-bost at Matthew.Aplin@ombudsman-wales.org.uk neu Lucy.John@ombudsman-wales.org.uk, neu i'r cyfeiriad canlynol:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Ffôn 01656 644200
Ffacs 01656 641199

e-bost holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk (ymholiadau cyffredinol)

Dilynwch ni ar Twitter: @OmbudsmanWales

Ceir rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar ein gwefan www.ombwdsmon-cymru.org.uk

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Adroddiad i'r:** **Pwyllgor Safonau**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **10 Mawrth 2017**

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** **Gary Williams, Swyddog Monitro**

**Awdur yr Adroddiad:** **Gary Williams, Swyddog Monitro**

**Teitl:** **Deunyddiau cyflwyniad Moeseg a Safonau**

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

**1.1** Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â deunyddiau cyflwyniad a gynhyrchwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, i'w defnyddio gan awdurdodau lleol wrth hyfforddi aelodau newydd a'r rhai sy'n dychwelyd ar ôl Etholiadau Llywodraeth Leol ym Mai 2017.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

**2.1** Hysbysu'r Pwyllgor bod y deunyddiau cyflwyniad wedi'u creu, ac i geisio eu safbwyntiau ar eu defnydd gan y Cyngor.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

**3.1** Bod y Pwyllgor yn ystyried cynnwys y deunyddiau cyflwyniad gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a chadarnhau ei fod yn fodlon iddynt gael eu defnyddio gan y Swyddog Monitro yn yr hyfforddiant a roddir i aelodau newydd a'r rhai sy'n dychwelyd i'r Cyngor Sir a Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned.

## 4. Manylion yr adroddiad

**4.1** Un o swyddogaethau'r Pwyllgor Safonau yw cynghori a threfnu hyfforddiant i Gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig ar y Cod Ymddygiad.

**4.2** Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cynhyrchu pecyn cyflwyniad, sy'n cynnwys cyflwyniad sleidiau (Atodiad 1), a nodiadau i hwyluswyr (Atodiad 2), er mwyn cynorthwyo Cynghorau wrth ddarparu hyfforddiant ar faterion moesegol a safonau ar ôl yr etholiadau. Pwrpas hyn yw rhoi cyfres gyffredin o adnoddau y gellir eu defnyddio ledled Cymru, ac annog dealltwriaeth gyffredin o ofynion y Cod Ymddygiad rhwng aelodau etholedig.

**4.3** Mae'r pecyn wedi'i baratoi gan gydweithiwr yng Nghyngor Sir y Fflint ac wedi'i gyfieithu er mwyn iddo gael ei gyflwyno yn Gymraeg a Saesneg.

**4.**4 Mae'r Ombwdsmon wedi gwneud cyflwyniad fideo byr a fydd ar gael i'w ddefnyddio mewn digwyddiadau hyfforddi, a bydd Aelodau'r Pwyllgor yn gallu gweld y fideo yn eu cyfarfod. Mae pecyn e-ddysgu hefyd yn cael ei ddatblygu a bydd ar gael i'w ddefnyddio ar ôl yr etholiad.

**4.5** Mae Cod Ymddygiad Sir Ddinbych wedi'i ddiwygio o'r blaen i'w wneud yn ofyniad o'r Cod bod Cynghorwyr Sir yn mynd i o leiaf un digwyddiad hyfforddi ar y Cod Ymddygiad yn ystod pob tymor o'r cyngor. Bydd digwyddiad hyfforddi'n cael ei gynnal yn fuan ar ôl yr etholiad ar gyfer Cynghorwyr Sir, a bydd rhaglen o ddigwyddiadau ar draws y Sir ar gyfer Cynghorwyr Dinas, Tref a Chymuned. Mae presenoldeb yn y digwyddiadau ar gyfer Cynghorwyr Dinas, Tref a Chymuned wedi bod yn siomedig yn y gorffennol. Gall datblygu pecyn e-ddysgu helpu i gyrraedd y Cynghorwyr hynny sydd ddim yn gallu dod i'n digwyddiadau.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

**5.1** Nid yw'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol ar y Blaenoriaethau Corfforaethol.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

**6.1** Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn. Bydd yr hyfforddiant yn cael ei gyflwyno gan staff y mae'r costau'n cael eu cynnwys o fewn cyllidebau presennol.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les? Gellir lawrlwytho adroddiad yr Asesiad o Effaith ar Les oddi ar y wefan, a dylai gael ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad hwn**

**7.1** Nid yw'r adroddiad hwn yn ceisio cyflwyno newid neu gynnig a fyddai'n gofyn am asesiad o'r fath.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?**

**8.1** Ni ymgynghorwyd ag Archwilio o ran y mater hwn.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

**9.1** Does dim goblygiadau ariannol uniongyrchol o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

**10.1** Mae risg os na fydd Aelodau'n cael yr hyfforddiant priodol, y gallant dorri'r Cod Ymddygiad yn anfwriadol.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

**11.1** Erthygl 8.6.5 o Gyfansoddiad y Cyngor

# Rhaglen Gyflwyno'r Cynghorwyr 2012

WLGA • CLlLC

# Moeseg a safonau



© 2017 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA)
Ar gyfer awdurdodau sy'n perthyn i  WLGA.  Chaiff neb arall ddefnyddio'r deunydd hwn heb gael caniatâd WLGA ymlaen llaw



Place white box over this text & Insert Logo Here



WLGA • CLILC

# Llywodraethu'n foesegol

I fod yn effeithiol, rhaid i fyd llywodraeth leol ymddwyn yn ôl safonau uchel fel y bydd pawb yn hyderus ym mhopeth rydyn ni'n ei wneud.





# Goblygiadau i gynghorwyr

- ‘Penderfynodd y pwyllgor fod y cynghorydd wedi gweithredu’n groes i’r côd ymddwyn ac y dylai gael ei wahardd am fis calendr.’
- ‘Roedd y cynghorydd wedi methu â pharchu ac ystyried pobl eraill. Cytunodd y pwyllgor y byddai’n cyhoeddi ei ganfyddiadau ac yn argymell y dylai’r cyngor geryddu’r aelod yn ffurfiol.
- ‘Torri côd ymddwyn y cynghorwyr trwy fygwth un o weithwyr y cyngor.’

Place white box over this text & Insert Logo Here



WLGA • CLILC

# Ymarfer

Holiadur

Place white box over this text & Insert Logo Here



WLGA • CLILC

# Eich cyfrifoldebau

Mae gofyn statudol ichi weithredu'n foesegol yn ôl Deddf 'Llywodraeth Leol' 2000

Mae Gorchymyn Côd Ymddygiad Safonol Awdurdodau Lleol Cymru 2008 yn gofyn i bob awdurdod sefydlu côd ymddwyn sydd wedi'i seilio ar yr un wladol

Place white box over this text & Insert Logo Here



WLGA • CLILC

# Fframwaith moesegol

**Pwyllgor Nolan ym 1997 - tarddiad Fframwaith Safonau Bywyd Cyhoeddus**

**A chithau'n gynghorydd, rhaid cadw'r egwyddorion hyn mewn cof:**

- Bod yn anhunanol
- Gonestrwydd
- Uniondeb a phriodoldeb
- Dyletswydd i hybu'r gyfraith
- Gwarchod
- Penderfynu'n wrthrychol
- Cydraddoldeb a pharch
- Agwedd agored
- Atebolrwydd
- Arwain

Place white box over this text & Insert Logo Here



WLGA • CLILC

# Côd ymddwyn

- Dangos sut mae defnyddio'r fframwaith moesegol
- Chewch chi ddim bod yn gynghorydd heb lofnodi datganiad eich bod yn ei dderbyn nac addo trwy lythyr y byddwch chi'n cadw ato
- O fethu â chadw ato, bydd modd eich gwahardd rhag bod yn gynghorydd
- Mae'n berthnasol i gynghorwyr Cymru i gyd ac eithrio aelodau awdurdodau heddlu, a ddylai weithredu yn ôl côd ymddwyn Lloegr

Place white box over this text & Insert Logo Here



WLGA • CLILC

# Mae'n berthnasol i chi pan foch chi...

- Yng nghyfarfodydd 'swyddogol' yr awdurdod
- Mewn unrhyw gyfarfod lle mae rhai o gynghorwyr neu swyddogion yr awdurdod yn bresennol
- Yn gweithredu ar ran yr awdurdod (neu'n honni/ cyfleu'r argraff eich bod yn gwneud hynny)
- Yn cyflawni gwaith yr awdurdod yn rhinwedd eich swydd yn gynghorydd ac ar ran yr awdurdod
- Yn cyflawni gorchwyl swyddogol
- Yn cynrychioli'r awdurdod mewn corff arall oni bai bod gan y corff hwnnw ei gôd ei hun neu reolau cyfreithiol sy'n groes i'ch côd chi

Place white box over this text & Insert Logo Here



WLGA • CLILC

# A hefyd…

<u>Unrhyw bryd</u> os ydych chi'n:

- Ymddwyn mewn modd sy'n debygol o ddwyn anfri ar eich swydd neu'ch awdurdod
- Defnyddio'ch statws i ennill mantais neu osgoi anfantais er eich lles chi neu er lles pobl eraill
- Camddefnyddio adnoddau'ch awdurdod

Place white box over this text & Insert Logo Here



WLGA • CLILC

# Rheolau cyffredinol y côd

- Hybu cydraddoldeb
- Parchu pobl a rhoi pob ystyriaeth i'w hanghenion
- Peidio ag erlid pobl nac aflonyddu arnyn nhw
- Gadael i swyddogion weithredu'n amhleidiol
- Peidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol
- Peidio â rhwystro neb rhag gweld gwybodaeth

Place white box over this text & Insert Logo Here



WLGA • CLILC

# Rheolau cyffredinol y côd

- Peidio â dwyn anfri ar y swydd a'r awdurdod
- Tynnu sylw at achosion o dorri'r côd
- Peidio â chwyno'n flinderus
- Cydweithredu ag ymchwiliadau
- Peidio â defnyddio'ch swydd yn amhriodol
- Peidio â chamddefnyddio adnoddau'r awdurdod

Place white box over this text & Insert Logo Here



WLGA • CLILC

# Rheolau cyffredinol y côd

- Dod i benderfyniadau'n wrthrychol
- Ystyried cyngor mae swyddogion yn ei roi ichi a rhoi rhesymau os nad ydych chi'n ei dderbyn
- Cydymffurfio â'r gyfraith a rheolau'r awdurdod ynglŷn â threuliau
- Peidio â derbyn unrhyw roddion, cymwynas na chroeso fyddai'n arwain at ddisgwyl ichi wneud rhywbeth neu'n cyfleu'r argraff honno

Place white box over this text & Insert Logo Here



WLGA • CLILC

# Buddiannau

Dylai pobl fod yn hyderus eich bod yn penderfynu er eu lles nhw, nid er eich lles chi!

Felly, os ydych chi'n ymwneud â mater mewn unrhyw ffordd, rhaid ichi ddatgan hynny.

Place white box over this text & Insert Logo Here



WLGA • CLILC

# Buddiannau personol

Mae buddiannau personol pan fydd penderfyniad yn ymwneud â chi neu rywun rydych chi'n ei adnabod yn dda, neu'n debygol o wneud hynny, ynghylch:

- Eich swydd neu'ch busnes
- Eich cyflogwr neu gwmni rydych chi'n bartner neu'n gyfarwyddwr ynddo
- Rhywun sydd wedi helpu i dalu'ch costau yn yr etholiad neu'ch treuliau wedyn
- Unrhyw gwmni a chanddo adeiladau neu dir yn eich bro, os oes gennych chi ynddo gyfrannau gwerth dros £25,000 neu dros 1% o gyfrannau'r cwmni i gyd





- Unrhyw gytundeb mae'ch awdurdod yn ei sefydlu gyda chwmni rydych chi'n bartner, yn gyfarwyddwr neu'n gyfranddaliwr ynddo
- Unrhyw dir rydych chi'n ymwneud ag e yn ardal eich awdurdod
- Unrhyw dir mae'ch awdurdod yn ei roi ar osod i gwmni rydych chi'n bartner, yn gyfarwyddwr neu'n gyfranddaliwr ynddo
- Unrhyw dir yn ardal eich awdurdod mae gyda chi drwydded i fod arno am o leiaf 28 diwrnod

Place white box over this text & Insert Logo Here



WLGA • CLILC

– Unrhyw gorff mae'ch cyngor wedi'ch penodi neu'ch enwebu i wasanaethu ynddo.
– Unrhyw awdurdod neu gorff cyhoeddus sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus eu natur, elusen, barn neu bolisi cyhoeddus, undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol, cymdeithas neu glwb preifat yn ardal eich awdurdod lle rydych chi'n aelod neu'n rheolwr.

Place white box over this text & Insert Logo Here



WLGA • CLILC

# ‘Rhywun rydych chi'n ei adnabod yn dda’

Eich cyfaill gorau, a‘ch gelyn gwaethaf...

- Cyfeillion agos
- Cydweithiwr mae gyda chi gysylltiadau cryf â nhw
- Pobl rydych chi'n gysylltiedig â nhw trwy fusnes
- Perthnasau agos
- Rhywun y buoch chi mewn anghydfod ag e

- Ond nid pobl o'ch cydnabod, pobl sy'n perthyn ichi o bell na'r rhai rydych chi'n cwrdd â nhw trwy'ch gwaith

Place white box over this text & Insert Logo Here



WLGA • CLILC

# Beth mae rhaid ei wneud os oes budd personol gyda chi?

- Rhaid ei ddatgan ar lafar mewn cyfarfod
- Rhaid ei ddatgan wrth ysgrifennu neu sôn am y pwnc y tu allan i gyfarfod
- Rhaid llenwi ffurflen datgan buddiannau
- OND mae gyda chi hawl i gymryd rhan yn y trafodaethau a phleidleisio oni bai bod <u>budd niweidiol</u>

Place white box over this text & Insert Logo Here



WLGA • CLILC

## Buddiannau niweidiol

Unrhyw fuddiannau personol y byddai'r cyhoedd yn eu hystyried yn rhai sy'n debygol o effeithio ar eich barn neu'ch gallu i fod yn wrthrychol, er enghraifft:

- Os yw'ch merch yn byw wrth ymyl safle mae bwriad i godi tai arno
- Os yw'ch mab yn mynychu ysgol mae bwriad i'w chau

Place white box over this text & Insert Logo Here



WLGA • CLILC

# Beth mae rhaid ei wneud os oes gyda chi fuddiannau niweidiol?

Rhaid ichi adael y cyfarfod cyn y drafodaeth

Chewch chi ddim defnyddio pwerau sydd wedi'u dirprwyo

Chewch chi ddim ceisio dylanwadu ar y penderfyniad

Chewch chi ddim siarad na rhoi tystiolaeth ysgrifenedig

**ONI BAI**

bod Pwyllgor y Safonau wedi gadael ichi wneud hynny

bod hawl i ddinasyddion siarad neu roi tystiolaeth (ar yr amod eich bod chi'n gadael ar ôl siarad)

bod gofyn ichi fynd gerbron pwyllgor craffu

Place white box over this text & Insert Logo Here




WLGA • CLILC

# Ymarfer ynglŷn â buddion

Yn eich grwpiau, ystyriwch y sefyllfaoedd ac ateb y cwestiynau





# Dod i farn neu benderfyniad ymlaen llaw

**Barnu ymlaen llaw** – mae gennych chi farn am y pwnc ond heb arddel safbwynt eto

**Penderfynu ymlaen llaw** – rydych chi wedi dod i benderfyniad na all unrhyw ddadl ei newid

A chithau'n ymwneud â phenderfyniad, dylech chi osgoi cyfleu'r argraff eich bod wedi penderfynu sut byddwch chi'n pleidleisio yn y cyfarfod

“Mae barn gyda fi, ond hoffwn i wrando ar yr holl ddadleuon cyn dod i benderfyniad.”

Place white box over this text & Insert Logo Here



WLGA • CLILC

# Gogwydd

- Pan fo'n ymddangos bod gogwydd, rhaid cofio y gallai hynny effeithio ar y penderfyniad achos y bydd modd codi amheuon wedyn.  Dyma achos fu gerbron yr Uchel Lys: *Kelton v Wiltshire*
- Cafodd caniatâd cynllunio ar gyfer codi tai ei ddileu am fod aelod o bwyllgor cynllunio wedi amlygu gogwydd.

Place white box over this text & Insert Logo Here



WLGA • CLILC

# Trefniadau cadw llygad

- Swyddog monitro
- Pwyllgor safonau
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Panel Dyfarnu Cymru

Place white box over this text & Insert Logo Here



WLGA • CLILC

# Pe baech chi'n torri'r côd...

- Cwyn i'r Ombwdsmon
- Os yw o'r farn ei bod yn dal dŵr, bydd yn ei rhoi i bwyllgor safonau'r awdurdod neu i dribiwnlys mae Panel Dyfarnu Cymru wedi'i sefydlu
- O brofi'r gwyn, bydd amrywiaeth o gosbau rhwng dim byd o gwbl a'ch gwahardd am bum mlynedd
- Hyd yn oed ar ôl cael eich gwahardd, bydd y côd yn berthnasol o hyd!
- Cofiwch unrhyw weithdrefnau datrys lleol, hefyd

Place white box over this text & Insert Logo Here



WLGA • CLILC

# Rhagor o wybodaeth

- Os nad ydych chi'n siwr, holwch swyddog monitro'r awdurdod

- Canllawiau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

  http://www.ombudsman-wales.org.uk/

Member Induction
Wales 2017

WLGA • CLILC

# Cyflwyno Moeseg

# Pecyn hysbysu i'r hwyluswyr





© Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (WLGA) 2017
Ar gyfer awdurdodau sy'n perthyn i WLGA. Chaiff neb arall ddefnyddio'r deunydd hwn heb gael caniatâd WLGA ymlaen llaw.

**Swyddogion monitro ddylai lywio'r gweithdy – ar y cyd ag uwch gynghorydd profiadol lle bo modd. Defnyddiwch y deunydd ynghyd â fideo'r Ombwdsmon. Dylai fod gan y cynghorwyr gopïau o gôd ymddwyn y cyngor a chanllawiau'r Ombwdsmon.**

**Hyd y gweithdy: 2 awr a hanner, heb gynnwys yr egwyl**

**Amcanion**

Dyma ddiben y sesiwn:

- Rhoi i'r cynghorwyr grynodeb o'r fframwaith moesegol a'r côd ymddwyn

**Erbyn diwedd y sesiwn, dylai'r cynghorwyr allu:**

- Deall pwysigrwydd y fframwaith moesegol a'r gofyn iddyn nhw gadw ato yn ôl y côd ymddwyn
- Deall sut mae gweithredu yn ôl y côd, yn arbennig ynglŷn â datgan buddiannau
- Deall beth fyddai'n digwydd pe baen nhw'n torri'r côd
- Gwybod ble mae cynghorion a gwybodaeth ar gael

## Rhaglen:

1. Cyflwyno pawb: Disgrifio'r rhaglen a'i hamcanion – 10 munud
2. Cyflwyno'r pwnc a'r holiadur (dim ond y cwestiynau) – 20 munud
3. Sleidiau 1-11 gan gynnwys atebion i'r holiadur – 40 munud
4. Egwyl
5. Sleidiau 12-18: Buddiannau ac ymarfer – 35 munud
6. Sleidiau 19-22: Penderfynu ymlaen llaw, torri'r côd a rhagor o wybodaeth. Rhaid cynnwys fideo'r Ombwdsmon – 45 munud

**Sleid 1: Teitl a chyflwyniad**
Ym myd llywodraeth leol, mae egwyddorion a safonau sy'n ategu'r modd mae cynghorwyr a swyddogion yn ymwneud â'i gilydd a'r cyhoedd er mwyn gofalu y bydd popeth wnewch chi'n adlewyrchu'n dda arnoch chi ac ar yr awdurdod.  Bydd y gweithdy hwn yn eich helpu i ddeall y safonau hyn, sut dylech chi eu defnyddio a beth allai ddigwydd ichi os nad ydych chi'n cadw atyn nhw.

**Sleid 2:  Llywodraethu'n foesegol**
A chithau'n gynghorydd, bydd y modd mae pobl yn gweld eich ymddygiad yn effeithio ar eich gallu i gynrychioli byd llywodraeth leol a'r cymunedau rydych chi'n eu gwasanaethu. Rhaid i bobl fod yn hyderus eich bod yn gweithredu yn ôl y safonau uchel mae gyda nhw hawl i'w disgwyl gennych chi.

**Sleid 3: Canlyniadau i gynghorwyr**
Dyma ddyfyniadau o'r wasg ac o wefan cyngor dros y ddwy i dair blynedd diwethaf. Mae'n amlwg ei bod yn bwysig ichi ddeall eich cyfrifoldebau yn y maes hwn er eich enw da chi ac un y cyngor. Efallai y bydd hwyluswyr am ychwanegu pigion eraill o'r wasg.
DS: (Dyfyniad o erthygl am Bowys ar wefan BBC Cymru yw'r cyntaf; daw'r ail o erthygl ar wefan Gogledd Swydd Henffordd yn 2016; a daw'r trydydd o bapur Newham Recorder yn 2016)

**Sleid 4: Ymarfer (Atodiad 1)**
Bydd cynghorwyr yn gwneud yr ymarfer mewn grwpiau gan ddefnyddio copïau o **Atodiad 1**. Gadewch i bob grŵp drafod y mater a rhoi ateb wedyn. **Peidiwch â rhoi'r atebion (Atodiad 2)** yn syth – bydd y nodiadau isod yn dweud pryd y dylech chi eu rhoi. Ar ôl rhoi pob ateb, dylech chi gyfeirio yn ôl at y cwestiwn gwreiddiol. Rhowch **Atodiad 2** i'r cynghorwyr ddiwedd y sesiwn fel y bydd gyda nhw rywbeth i gyfeirio ato yn y dyfodol.

**Sleid 5: Eich cyfrifoldebau**Mae gofynion statudol am y rhain. Sefydlodd Deddf 'Llywodraeth Leol' 2000 fframwaith moesegol newydd. Yn ôl Gorchymyn 'Côd Ymddygiad Enghreifftiol' Cymru 2008, rhaid i bob awdurdod weithredu yn ôl cod ymddwyn sydd wedi'i seilio ar yr un gwladol.

Mae paragraff 6.1(c) y côd wedi'i ddileu erbyn hyn. Dyma'r paragraff oedd yn mynnu bod rhaid i aelod roi gwybod i'r PSOW a'r Swyddog Monitro am unrhyw ymddygiad gan aelod arall os oedd yn credu'n rhesymol bod yr ymddygiad yn torri'r côd.  Dim ond i'r Swyddog Monitro y mae'n rhaid rhoi gwybod bellach, ond caiff aelod hysbysu'r PSOE os credir ei fod yn achos difrifol.

Mae paragraff 10(2)(b) y côd wedi'i ddileu. Dyma'r paragraff oedd yn nodi bod gennych fudd personol 'pe byddai rhywun yn gallu credu yn rhesymol fod eich rôl wedi'i heffeithio wrth ddod i benderfyniad, ar y mater o dan sylw, ar ran eich awdurdod yn gyffredinol ac wrth gynrychioli buddiannau'r etholwyr yn eich ward neu isadran etholiadol'.

**Sleid 6: Fframwaith moesegol**
Tarddiad: Adroddiad Pwyllgor Nolan (1997), *Standards in Public Life*, a bennodd fersiwn cyntaf y safonau hyn. Mae'r sleid hon yn dangos y fersiwn diweddaraf yn ôl Gorchymyn 'Ymddygiad Cynghorwyr' Cymru 2001.

Rhaid atgoffa'r cynghorwyr mai dyma ateb i **gwestiwn cyntaf yr holiadur**.

**Defnyddiwch yr atebion i gwestiwn 1 yn Atodiad 2 i ymhelaethu ar y diffiniadau.**

**Sleid 7: Côd ymddwyn**
Wedi'i ategu gan y fframwaith moesegol.
Dylech chi atgoffa'r cynghorwyr am gynnwys côd ymddwyn yr awdurdod, gan roi copïau iddyn nhw lle bo angen.

Os nad ydych chi'n ei ddeall, holwch swyddog monitro'r awdurdod. Os nad ydych chi'n ei ddeall, holwch swyddog monitro'r awdurdod. Mae sawl cynghorydd yn credu mai dim ond pan fo'n cyflawni gwaith swyddogol y bydd y côd yn berthnasol. DYW HYNNY DDIM YN WIR.

**Sleid 8: Bydd y côd yn berthnasol pan foch chi…**

**Sleid 9: A hefyd…**
Pan nad ydych chi'n gweithredu'n gynghorydd.
**Rhaid atgoffa'r cynghorwyr mai dyma ateb i gwestiwn 6 yn yr holiadur.**

**Sleid 10-12: Rheolau cyffredinol y côd**
Rhowch i'r cynghorwyr gopi o ganllawiau'r Ombwdsmon i ymhelaethu ar y diffiniadau.
Rhowch yr **atebion i gwestiynau 2, 4 a 6** ac esbonio pa rannau o'r côd sydd wedi'u torri.

**Sleid 13: Buddiannau**

**Sleid 14-16: Buddiannau personol**
Cyfeiriwch y cynghorwyr at ganllawiau'r Ombwdsmon.
Rhowch yr **atebion i gwestiwn 3 yn yr holiadur**.
Amlinellwch weithdrefn eich awdurdod ar gyfer cofrestru buddiannau.

**Sleid 17: 'Rhywun rydych chi'n ei adnabod yn dda'**
Cyfeiriwch y cynghorwyr at ganllawiau'r Ombwdsmon

**Sleid 18: Beth mae rhaid ei wneud os oes budd personol gyda chi?**

**Sleid 19: Buddiannau niweidiol**
Gofynnwch i'r cynghorwyr roi rhagor o enghreifftiau o fuddiannau personol

**Sleid 20: Beth mae rhaid ei wneud os oes gyda chi fuddiannau niweidiol?**

**Sleid 21: Ymarfer ynglŷn â buddiannau – Atodiad 3**

Ar ôl lledaenu’r deunydd, gofynnwch i’r cynghorwyr weithio mewn grwpiau neu barau i ystyried a oes budd, natur y budd hwnnw a’r camau y dylai’r cynghorydd ei gymryd. Mae rhai atebion wedi’u hawgrymu yn **Atodiad 4.**

**Sleid 22: Penderfynu ymlaen llaw a phatrymau penderfynu**

**Diffiniadau yn ôl gwefan Bwrdd Safonau Lloegr**

Mae pob hawl gan gynghorwyr i dueddu i fod o farn benodol. Gall y farn yma fod yn un bendant ac mae rhwydd hynt ganddynt ei mynegi'n gyhoeddus. Gallen nhw hyd yn oed fod wedi'u hethol oherwydd eu barn ynghylch y mater penodol. Gallen nhw fod o blaid neu yn erbyn safbwynt penodol e.e. cais cynllunio.

Rhaid i bob cynghorydd dderbyn, fodd bynnag, y gallai glywed yn ystod y drafodaeth am y pwnc rywbeth allai newid ei feddwl o ran sut mae’n bwriadu pleidleisio. Ar yr amod ei fod yn fodlon cadw meddwl agored amdano, mae ganddo hawl i gymryd rhan yn y pleidleisio.

## *Beth yw penderfynu ymlaen llaw neu ogwydd?*

Ystyr penderfynu ymlaen llaw yw nad yw cynghorydd yn fodlon ystyried unrhyw ddadl ar wahân i’w safbwynt ei hun am y mater mae’n penderfynu arno megis cais am ganiatâd cynllunio. Bydd y cynghorydd yn diystyru pob dadl arall wrth ddod i benderfyniad.

Pan fo cynghorwyr yn ymwneud â phroses benderfynu, dylen nhw osgoi cyfleu’r argraff eu bod wedi penderfynu eisoes sut byddan nhw’n pleidleisio yn y cyfarfod ac na all neb newid eu barn. Gallan nhw roi’r argraff honno mewn nifer o ffyrdd megis sylwadau yn y wasg, yr hyn ddywedon nhw mewn cyfarfodydd a’r hyn ysgrifennon nhw mewn llythyrau.

Fydd aelodaeth o gorff megis elusen ddim yn gyfystyr a gogwydd o’r fath fel arfer, oni bai bod canlyniad y broses benderfynu mae’r cynghorydd yn ymwneud â hi’n bwysig i’r corff hwnnw am ryw reswm neu fod y penderfyniad yn un lled gyfreithiol ei natur.

Gogwydd:-

Kelton v Wiltshire [2015] EWHC 2853 (Gweinyddol);

Roedd y datblygwyr wedi nodi cymdeithas tai leol fel partner posibl i gynnig tai fforddiadwy yn rhan o ddatblygiad arfaethedig. Roedd un o'r cynghorwyr (M) oedd yn rhan o'r pwyllgor cynllunio dilynol hefyd yn un o gyfarwyddwr y gymdeithas. Fe eglurodd ei fod yn aelod o fwrdd y gymdeithas, ond penderfynodd bleidleisio ynghylch y cais cynllunio gan mai partner arfaethedig oedd y gymdeithas yn hytrach na'r corff oedd yn cyflwyno'r cais. Cymeradwywyd y bleidlais o drwch blewyn (un bleidlais). Pe byddai wedi penderfynu peidio â phleidleisio, byddai'r cais wedi'i wrthod. Aeth y datblygwyr ati wedi hynny i ddewis y gymdeithas i gynnig y tai fforddiadwy ar gyfer y prosiect.

Rhoddodd y ffaith fod M wedi cymryd rhan yn y cyfarfod cynllunio yr argraff o ogwydd posibl. Doedd dim dwywaith y byddai cymeradwyo'r cais wedi bod o fudd i'r gymdeithas ac M fel un o'i chyfarwyddwyr. Roedd y gymdeithas wedi ymrwymo amser, adnoddau ac arbenigedd wrth weithio gyda'r datblygwyr ar y tai fforddiadwy. Go brin y byddai wedi gwneud hynny oni bai ei bod yn credu y byddai'n cael cytundeb ganddyn nhw wedi i'r cais

cynllunio gael ei gymeradwyo. Gellir cael yr argraff o ogwydd posibl hyd yn oed mewn achos lle nad oedd cynghorydd wedi pleidleisio. Roedd y llys/barnwr yn achos *Darker Enterprises v Dacorum BC [1992] C.O.D. 465* o'r farn bod y bleidlais yn ymwneud â buddiannau preifat M, ac na ddylai fod wedi cymryd rhan yn y cyfarfod. Yn unol â hynny, cafodd y penderfyniad i roi caniatâd cynllunio ei ddileu.

## *Dod i'r penderfyniad*

Mae gwahaniaeth pwysig rhwng y cynghorwyr sy'n ymwneud â'r penderfyniad a'r rhai sy'n ceisio dylanwadu arno. Bydd y cynghorwyr nad ydyn nhw'n ymwneud â'r penderfyniad yn cael mynegi eu barn am y canlyniad yr hoffen nhw ei weld, fel arfer.

Wrth ystyried a oes argraff bod penderfyniad ymlaen llaw neu ogwydd, dylai'r cynghorwyr sy'n gyfrifol am ddod i'r penderfyniad ofyn y cwestiwn hwn: Fyddai rhywun teg ei feddwl a chanddo'r wybodaeth berthnasol yn dod i'r casgliad, ar ôl ystyried y ffeithiau i gyd, fod gwir posibilrwydd bod y cynghorydd wedi dod i benderfyniad ymlaen llaw neu fod ganddo ogwydd?

O ofyn y cwestiwn hwnnw, fodd bynnag, dylen nhw gofio bod cynghorydd yn cael arddel rhyw safbwynt ar yr amod ei fod yn fodlon ystyried pob dadl arall am y pwnc dan sylw.

At hynny, mae argraff o'r fath yn llai pwysig pan nad yw'r penderfyniad yn un cyfreithiol, ac mae penderfyniadau am ganiatâd cynllunio'n weinyddol ei natur, nid cyfreithiol. Felly, bydd cynghorwyr yn cael ymddangos eu bod yn gryf o blaid penderfyniad neu'n ei erbyn.

Sleid 23

Kelton v Wiltshire [2015] EWHC 2853 (Gweinyddol);

Roedd y datblygwyr wedi nodi cymdeithas tai leol fel partner posibl i gynnig tai fforddiadwy yn rhan o ddatblygiad arfaethedig. Roedd un o'r cynghorwyr (M) oedd yn rhan o'r pwyllgor cynllunio dilynol hefyd yn un o gyfarwyddwr y gymdeithas. Fe eglurodd ei fod yn aelod o fwrdd y gymdeithas, ond penderfynodd bleidleisio ynghylch y cais cynllunio gan mai partner arfaethedig oedd y gymdeithas yn hytrach na'r corff oedd yn cyflwyno'r cais. Cymeradwywyd y bleidlais o drwch blewyn (un bleidlais). Pe byddai wedi penderfynu peidio â phleidleisio, byddai'r cais wedi'i wrthod. Aeth y datblygwyr ati wedi hynny i ddewis y gymdeithas i gynnig y tai fforddiadwy ar gyfer y prosiect.

Rhoddodd y ffaith fod M wedi cymryd rhan yn y cyfarfod cynllunio yr argraff o ogwydd posibl. Doedd dim dwywaith y byddai cymeradwyo'r cais wedi bod o fudd i'r gymdeithas ac M fel un o'i chyfarwyddwyr. Roedd y gymdeithas wedi ymrwymo amser, adnoddau ac arbenigedd wrth weithio gyda'r datblygwyr ar y tai fforddiadwy. Go brin y byddai wedi gwneud hynny oni bai ei bod yn credu y byddai'n cael cytundeb ganddyn nhw wedi i'r cais cynllunio gael ei gymeradwyo. Gellir cael yr argraff o ogwydd posibl hyd yn oed mewn achos lle nad oedd cynghorydd wedi pleidleisio. Roedd y llys/barnwr yn achos *Darker Enterprises v Dacorum BC [1992] C.O.D. 465* o'r farn bod y bleidlais yn ymwneud â buddiannau preifat M, ac na ddylai fod wedi cymryd rhan yn y cyfarfod. Yn unol â hynny, cafodd y penderfyniad i roi caniatâd cynllunio ei ddileu.

**Sleid 24: Trefniadau cadw llygad**
**Dyma'r ateb i gwestiwn 8.**
Defnyddiwch yr ateb sydd yn **Atodiad 2** i esbonio rolau'r amryw gyrff.

**Sleid 25: Pe baech chi'n torri'r côd...**
Dyma'r weithdrefn pe bai rhywun yn mynd yn groes i'r côd.

**DVD - 5 munud**

**Sleid 26 Annog y cynghorwyr eto i holi swyddog monitro'r awdurdod os nad ydyn nhw'n siŵr beth yw ymddygiad moesegol!**

**Atodiad 1**

**Holiadur**

Mae'r atebion mewn cyflwyniad PowerPoint sy'n ymhelaethu ar y manylion a'r cefndir – gall y cynghorwyr gadw'r cyflwyniad a chyfeirio ato yn ôl yr angen.

<u>Cwestiwn 1</u>

Beth yw'r 10 egwyddor mae côd ymddwyn y cynghorwyr wedi'i seilio arnyn nhw?

<u>Cwestiwn 2</u>

Mae'r cyngor yn cynnal trafodaethau gydag adeiladwr am gynllun adfywio sy'n ymwneud â chodi canolfan hamdden, tai a siopau mewn dau ward. Mae cyfarwyddwr rheoli'r cwmni wedi gwahodd aelodau'r pwyllgor craffu dros adfywio (mae rhai ohonyn nhw'n aelodau o'r pwyllgor cynllunio, hefyd) a rhai o swyddogion adran adfywio'r cyngor i achlysur lle bydd yn cyflwyno cynigion y cwmni mewn ystafell yn stadiwm un o dimau uwch gynghrair pêl-droed Lloegr. Bydd champagne, a chyfle i wylio gêm bêl-droed wedyn. Ddylen nhw fynd?

<u>Cwestiwn 3</u>

Mae cynghorydd yn ymgyrchwr ym mudiad Greenpeace ac yn aelod o bwyllgor cynllunio'r cyngor. Mae'r cyngor o blaid yr atomfa leol ac yn cynnal trafodaethau i ddatblygu'r safle fel y gall brosesu gwastraff niwclear o atomfeydd eraill. Oes gan y cynghorydd unrhyw fuddiannau ynglŷn â'r trafodaethau hynny. Os felly, beth yw eu natur?

<u>Cwestiwn 4</u>

Mae dyn yn awyddus i symud ei deulu i dŷ cyngor sy'n nes at aelodau oedrannus o'u teulu, a hoffai fynd ati i wneud hynny cyn gynted â phosibl. Mae'n siarad â chynghorydd y mae'n ei adnabod gan eu bod ill dau yn aelodau o'r tîm pêl-droed lleol. Mae'r cynghorydd hefyd yn cadeirio'r Pwyllgor Craffu ar Dai. Mae'r cynghorydd yn addo mynd ar ôl y mater. Swyddogion dyrannu tai, nid y cynghorwyr, sy'n prosesu ceisiadau penodol am dai. Mae'r

cynghorydd yn dweud wrth un o swyddogion tai y cyngor i symud y cais i frig y rhestr aros. Mae'r ardal y mae'r teulu am symud iddi yn rhan o ward y cynghorydd.

Ydy’r cynghorydd yn gweithredu’n groes i gôd ymddwyn y cyngor?

Cwestiwn 5

Mae aelod o'r cyhoedd wedi ysgrifennu llythyr i gwyno am gynghorydd. Dywedodd ei bod yn gweithio mewn digwyddiad nos Sadwrn diwethaf mewn bar a chlwb criced pan regodd dyn tuag ati a'i galw'n enw sarhaus. Wrth adael y digwyddiad, ciciodd y dyn y drws gan beri i'r gwydr dorri ym mhanel y drws. Roedd rhywun arall welodd yr hyn a ddigwyddodd wedi dweud wrthi bod y dyn yn gynghorydd lleol.

Ydych chi o’r farn bod côd ymddwyn y cyngor wedi’i dorri? Os felly, beth fyddai ymateb priodol i ymddygiad o’r fath?

Cwestiwn 6.

Mae cynghorydd wedi adeiladu cytiau ar gyfer 20 o gŵn yn islawr ei chartref heb gael caniatâd cynllunio. Rhoddodd hysbyseb yn y papur lleol i ddweud y byddai'r cytiau ar agor ym mis Mawrth a bod ganddi drwydded lawn ar eu cyfer. Nid oedd hi wedi cael trwydded pan osododd yr hysbyseb. Aeth ati i gyflwyno cais cynllunio ym mis Gorffennaf. Ni wnaeth sôn o gwbl yn ei chais ei bod yn gynghorydd.

Ym mis Medi, cyn cyfarfod pwyllgor cynllunio'r cyngor, fe anfonodd neges ebost at aelod o'r pwyllgor ynghylch y cais yn gofyn iddo ei gefnogi. Aeth i gyfarfod y pwyllgor cynllunio a siaradodd cyn i'w chais gael ei drafod, ond arhosodd yn y cyfarfod drwy gydol y drafodaeth am ei chais.

Ydy’r cynghorydd wedi gweithredu’n groes i gôd ymddwyn y cyngor?

Cwestiwn 7

Allwch chi ddisgrifio prosesau’r cyngor ar gyfer?

1. Datgan a chofrestru buddiannau cynghorwyr.
2. Derbyn rhoddion neu groeso sydd wedi’u cynnig i gynghorwyr.

Cwestiwn 8

Allwch chi esbonio rolau’r canlynol?

1. Swyddog monitro
2. Pwyllgor moeseg a safonau
3. Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
4. Panel Dyfarnu Cymru

**Atodiad 2**

**Atebion i'r holiadur**

Cwestiwn 1
Beth yw'r 10 egwyddor mae côd ymddwyn y cynghorwyr wedi'i seilio arnyn nhw?
Ateb
Man cychwyn llawer o'r gwaith oedd Pwyllgor Nolan dros Safonau Bywyd Cyhoeddus ym 1997. Yn sgîl argymhellion y pwyllgor, mabwysiadodd byd llywodraeth leol fframwaith moesegol newydd. Mae'r fersiwn diweddaraf yng Ngorchymyn 'Egwyddorion Ymddygiad Cynghorwyr' Cymru 2001.
Dyma'r 10 egwyddor gyffredinol ynglŷn ag ymddygiad cynghorwyr:

1. Bod yn anhunanol

   Dim ond er lles y cyhoedd mae rhaid i gynghorwyr weithredu. Ddylen nhw byth defnyddio eu statws yn gynghorwyr i gael mantais amhriodol iddyn nhw eu hunain na hwyluso mantais neu anfantais i bobl eraill.

2. Gonestrwydd

   Rhaid i bob cynghorydd ddatgan buddiannau preifat sy'n berthnasol i'w gorchwylion cyhoeddus a gofalu na fydd unrhyw wrthdaro sy'n amharu ar les y cyhoedd.

3. Uniondeb a phriodoldeb

   Dylai cynghorwyr ofalu eu bod mewn sefyllfa lle na all neb godi amheuon ynglŷn â'u gonestrwydd am fod arnyn nhw ddyled (ariannol neu o natur arall) i bobl neu sefydliadau allai geisio dylanwadu arnyn nhw wrth gyflawni eu dyletswyddau. Fe ddylai cynghorwyr osgoi ymddygiad o'r fath bob amser.

4. Dyletswydd i hybu'r gyfraith

   Rhaid i gynghorwyr hybu'r gyfraith a gweithredu bob amser yn ôl yr ymddiried mae pobl wedi'i roi ynddyn nhw.

5. Gwarchod

   Wrth gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, dylai cynghorwyr ofalu eu bod yn defnyddio adnoddau'r awdurdodau mewn modd cyfreithlon a darbodus.

6. Penderfynu'n wrthrychol

   Wrth gyflawni eu cyfrifoldebau megis penodi pobl, rhoi cytundebau neu argymell pobl ar gyfer anrhydeddau a buddion, dylai cynghorwyr ddod i benderfyniadau yn ôl y rhinweddau. Er y dylen nhw roi pob ystyriaeth i gyngor arbenigol swyddogion

a sylwadau pobl eraill gan gynnwys eu cylchoedd gwleidyddol, eu cyfrifoldeb nhw yw gofalu pa safbwynt sydd i'w arddel a, lle bo'n briodol, sut i bleidleisio am bwnc.

7. Cydraddoldeb a pharch

   Wrth gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, dylai cynghorwyr roi ystyriaeth briodol i angen hybu cyfleoedd cyfartal i ferched a dynion beth bynnag fo eu tras, eu hanableddau, eu tueddfryd rhywiol, eu hoedran neu eu crefydd. Rhaid parchu pobl eraill ac ystyried eu hanghenion.

8. Agwedd agored

   Dylai cynghorwyr fod mor agored ag y bo modd am yr hyn maen nhw'n ei wneud a'r hyn mae'r awdurdod yn ei wneud. Dim ond yn ôl gofynion y gyfraith y dylen nhw ddatgelu gwybodaeth.

9. Atebolrwydd

   Mae'r cynghorwyr yn atebol i'r etholwyr a'r bobl i gyd am yr hyn maen nhw'n ei wneud a'r modd maen nhw'n cyflawni eu cyfrifoldebau. Dylen nhw fod yn fodlon cael eu harchwilio fel y bo'n briodol yn ôl eu cyfrifoldebau.

10. Arwain

   Dylai cynghorwyr hybu a hwyluso'r egwyddorion hyn, gan arwain trwy esiampl fel y bydd pobl yn hyderus yn eu rôl nhw ac yn yr awdurdod. Ddylen nhw ddim gofyn i swyddogion statudol a staff eraill yr awdurdod fod yn unochrog nac yn anonest.

<u>Cwestiwn 2</u>

Mae'r cyngor yn cynnal trafodaethau gydag adeiladwr am gynllun adfywio sy'n ymwneud â chodi canolfan hamdden, tai a siopau yn wardiau'r cyngor. Mae cyfarwyddwr rheoli'r cwmni wedi gwahodd aelodau'r pwyllgor craffu dros adfywio (mae rhai ohonyn nhw'n aelodau o'r pwyllgor cynllunio, hefyd) a rhai o swyddogion adran adfywio'r cyngor i achlysur lle bydd yn cyflwyno cynigion y cwmni mewn ystafell yn stadiwm un o dimau uwch gynghrair pêl-droed Lloegr. Bydd champagne, a chyfle i wylio gêm bêl-droed wedyn. Ddylen nhw fynd?

<u>Ateb</u>

Dylai'r cynghorwyr (ac, yn wir, y swyddogion) wrthod y gwahoddiad. O'i dderbyn, gallen nhw fynd yn groes i baragraff 6 y côd – 'ddylech chi ddim ymddwyn mewn modd fyddai'n peri i bobl gredu'n rhesymol eich bod yn dwyn anfri ar eich swydd neu'ch awdurdod'. Ym

marn y cyhoedd, mae'r cwmni adeiladu'n ceisio dylanwadu ar benderfyniad y cyngor am y cytundeb trwy'r croeso a gewch chi. Dim ond materion cynllunio y dylai aelodau pwyllgor cynllunio eu hystyried wrth ddod i benderfyniad ond, yn yr achos hwn, gallai pobl ddod i'r casgliad bod haelioni'r cwmni adeiladu wedi dylanwadu arnyn nhw, hefyd.

At hynny, dylai'r cynghorwyr dynnu sylw'r swyddog monitro at y gwahoddiad, a'r ffaith eu bod wedi'i wrthod, rhag ofn y gallai fod yn bwnc llosg rywbryd wedyn.

Pe bai cynghorydd wedi derbyn gwahoddiad o'r fath er gwaetha'r cynghorion, byddai budd niweidiol o ran y cwmni hwnnw ac unrhyw benderfyniadau am y cytundebu neu'r cynllun adeiladu.

Gallai gwerth y pecyn croeso fod dros yr uchafswm mae'ch awdurdod yn ei ganiatáu ac, felly, byddai rhaid gofyn i'r swyddog monitro ei gynnwys yng nghofrestr y rhoddion a'r croeso. Cyfrifoldeb y cynghorydd yw gwybod faint yw'r uchafswm.

Cwestiwn 3

Mae cynghorydd yn ymgyrchwr ym mudiad Greenpeace ac yn aelod o bwyllgor cynllunio’r cyngor. Mae’r cyngor o blaid yr atomfa leol ac yn cynnal trafodaethau i ddatblygu’r safle fel y gall brosesu gwastraff niwclear o atomfeydd eraill. Oes gan y cynghorydd unrhyw fuddiannau ynglŷn â’r trafodaethau hynny. Os felly, beth yw eu natur?

Ateb:

Yn ôl pob tebyg, bydd gan y cynghorydd fudd personol yn ôl paragraff 10 (2)(viiii)(cc) am ei fod yn aelod o fudiad Greenpeace (corff mae'i brif ddibenion yn cynnwys dylanwadu ar farn y cyhoedd a pholisïau gwladol). Dylai'r cynghorydd gyfeirio at y budd hwnnw, yn ôl paragraffau 11 (2)(a) a (b) wrth gyflwyno unrhyw dystiolaeth ar lafar neu trwy lythyr, er ei bod yn annhebygol y byddai'r budd yn datblygu'n un niweidiol. Byddai rhaid i'r pwyllgor cynllunio ei ystyried wrth ddod i unrhyw benderfyniad am y safle. Nid Greenpeace fyddai'r ceisydd. Fyddai dim effaith ar ei sefyllfa ariannol nac, yn ôl y dyb, ar les y cynghorydd o dan sylw. Mae Greenpeace yn tueddu i fynegi barn am drefniadau gwladol ar gyfer cael gwared ar wastraff, yn hytrach na rhai penodol. Felly, mae'n debygol y byddai'r budd yn un personol, nid niweidiol. Rhaid ystyried yr achos yn ofalus, fodd bynnag.

At hynny, rhaid tynnu sylw'r swyddog monitro at y ffaith bod y cynghorydd yn aelod o'r mudiad a gofyn iddo ei nodi yng nghofrestr buddiannau'r cynghorwyr achos mai un o brif ddibenion Greenpeace yw dylanwadu ar farn y cyhoedd a pholisïau gwladol.

Cwestiwn 4

Mae dyn yn awyddus i symud ei deulu i dŷ cyngor sy'n nes at aelodau oedrannus o'u teulu, a hoffai fynd ati i wneud hynny cyn gynted â phosibl. Mae'n siarad â chynghorydd y mae'n ei adnabod gan eu bod ill dau yn aelodau o'r tîm pêl-droed lleol. Mae'r cynghorydd hefyd yn cadeirio'r Pwyllgor Craffu ar Dai. Mae'r cynghorydd yn addo mynd ar ôl y mater. Swyddogion dyrannu tai, nid y cynghorwyr, sy'n prosesu ceisiadau penodol am dai. Mae'r cynghorydd yn dweud wrth un o swyddogion tai y cyngor i symud y cais i frig y rhestr aros. Mae'r ardal y mae'r teulu am symud iddi yn rhan o ward y cynghorydd.

Ydy'r cynghorydd yn gweithredu'n groes i gôd ymddwyn y cyngor?

Ateb:

Mae modd torri'r côd mewn tair ffordd yma.

1. 4(d) Ddylech chi ddim gwneud unrhyw beth sy'n amharu ar amhleidioldeb y rhai sy'n gweithio i'r awdurdod, neu ar ei ran, nac unrhyw beth allai amharu arno.
2. 6(1)(a) Ddylech chi ddim ymddwyn mewn modd fyddai'n peri i bobl gredu'n rhesymol eich bod yn dwyn anfri ar eich swydd neu'ch awdurdod.
3. 7(a) Yn eich gwaith swyddogol a'r tu allan iddo, ddylech chi ddim defnyddio'ch statws yn amhriodol er mantais i chi neu rywun arall, na chreu/osgoi unrhyw anfantais allai effeithio arnoch chi neu rywun arall.

   At hynny, mae'n bosibl bod y cynghorydd wedi methu â datgan budd personol sy'n debygol o fod yn niweidiol gan ei fod yn adnabod y dyn o dan sylw. Gallai hyn fod yn berthnasol i'r amod am rywun rydych chi'n ei adnabod yn dda, a byddai rhaid i'r cynghorydd ei ystyried yn ofalus.

   Nid yw'n dderbyniol i unrhyw gynghorydd ofyn am ffafriaeth i etholwr drwy ddweud wrth swyddog tai bod yn rhaid iddo flaenoriaethu cais penodol. Er ei bod yn briodol i bob cynghorydd dynnu sylw'r swyddogion perthnasol at bryderon pobl ei ward a gofalu bod y prosesau'n mynd yn eu blaen yn brydlon ac ati, mae'n annerbyniol ymyrryd mewn proses o'r fath am ei bod yn tanseilio'r blaenoriaethau y cytunodd y cyngor arnyn nhw (sy'n rhan annatod o weithdrefnau eraill) ac yn peri i'r cynghorydd dan sylw dorri'r côd ymddwyn. Yn ogystal, wrth gysylltu â swyddog ynghylch unrhyw fater, rhaid i'r cynghorydd gofio bod rhaid iddo ddatgelu unrhyw fuddiant personol sy'n berthnasol.

Cwestiwn 5

Mae aelod o'r cyhoedd wedi ysgrifennu llythyr i gwyno am gynghorydd. Dywedodd ei bod yn gweithio mewn digwyddiad nos Sadwrn diwethaf mewn bar a chlwb criced pan regodd

dyn tuag ati a'i galw'n enw anghwrtais. Wrth adael y digwyddiad, ciciodd y dyn y drws gan beri i'r gwydr dorri ym mhanel y drws. Roedd rhywun arall welodd yr hyn a ddigwyddodd wedi dweud wrthi bod y dyn yn gynghorydd lleol.

Ydych chi o’r farn bod côd ymddwyn y cyngor wedi’i dorri? Os felly, beth fyddai ymateb priodol i ymddygiad o’r fath?

Ateb

Mae'r côd ymddwyn yn berthnasol i gynghorydd pan fo'n cyflawni gwaith yr awdurdod, yn mynychu cyfarfodydd yr awdurdod, yn gweithredu ar ran yr awdurdod, yn honni ei fod yn gweithredu ar ran yr awdurdod neu'n cyfleu'r argraff ei fod yn gweithredu ar ei ran.

Mae'r côd yn effeithio ar gynghorwyr bob amser ac ym mhob sefyllfa, fodd bynnag, o ran paragraff 6 (1)(a) – ymddwyn mewn modd fyddai'n peri i rywun gredu'n rhesymol eich bod yn dwyn anfri ar eich swydd neu'ch awdurdod – a pharagraffau 7 (a) a (b) ynglŷn â defnyddio'ch statws er mantais i chi neu rywun arall/er anfantais i rywun arall, defnyddio adnoddau'r awdurdod yn amhriodol ac ati.

Mae'n amlwg yma fod yr ymddygiad yn dwyn anfri ar y swydd a'r awdurdod, yn groes i baragraff 6.

Gallai fod yn well gan y sawl gyflwynodd y gwyn pe bai'r swyddog monitro'n ymdrin â'r achos yn anffurfiol. Byddai'r rhaid i'r ddwy ochr gytuno ar hynny, fodd bynnag, achos na fyddai'r cynghorydd yn cael cosb. Dim ond pe bai ymddiheuriad yn dderbyniol y byddai hynny'n briodol neu, o bosibl, pe bai'r cynghorydd yn cytuno i gael rhagor o hyfforddiant am ymddygiad gweddus yn ôl y côd.

Mae cyhuddiad o ddifrodi yn yr achos hwn, fodd bynnag, am fod y gwydr yn nrws y clwb criced wedi'i dorri. Fe allai'r sawl gyflwynodd y gwyn fynd i'r gyfraith ynglŷn â hynny, a dewis cyflwyno cwyn i'r Ombwdsmon yn hytrach na chytuno i'r mater gael ei ddatrys yn anffurfiol.

Cwestiwn 6

Mae cynghorydd wedi adeiladu cytiau ar gyfer 20 o gŵn yn islawr ei chartref heb gael caniatâd cynllunio. Rhoddodd hysbyseb yn y papur lleol i ddweud y byddai'r cytiau ar agor ym mis Mawrth a bod ganddi drwydded lawn ar eu cyfer. Nid oedd hi wedi cael trwydded pan osododd yr hysbyseb. Aeth ati i gyflwyno cais cynllunio ym mis Gorffennaf.

Ym mis Medi, cyn cyfarfod pwyllgor cynllunio'r cyngor oedd am drafod cais y cynghorydd, fe anfonodd neges ebost at aelod o'r pwyllgor ynghylch y cais yn gofyn iddo ei gefnogi. Aeth i gyfarfod y pwyllgor cynllunio a siaradodd am dair munud cyn i'w chais gael ei drafod, ac arhosodd yn y cyfarfod drwy gydol y drafodaeth am ei chais.

Ydy’r cynghorydd wedi gweithredu’n groes i gôd ymddwyn y cyngor?

(1) Yn groes i baragraff 6(1)(a) y côd (Rhaid i chi beidio ag ymddwyn mewn modd fyddai'n peri i bobl gredu'n rhesymol eich bod yn dwyn anfri ar eich swydd neu'ch awdurdod), aeth y cynghorydd ati i gynnal y gwaith adeiladu yn ei chartref cyn cyflwyno cais cynllunio.

(2) Yn groes i baragraffau 10(1) y côd (rhaid ystyried a oes gennych fudd personol ym mhob achos), ni wnaeth y cynghorydd ystyried a oedd ganddi fudd personol yn y cais cynllunio nac ystyried a ddylai ddatgelu'r budd yma pan anfonodd neges ebost at aelod o'r pwyllgor cynllunio ynghylch y cais o dan sylw.

(3) Yn groes i baragraffau 11(2)(a) y côd ymddwyn (Os oes gennych fudd personol yn unrhyw un o faterion eich awdurdod ac rydych yn cyflwyno deunydd ysgrifenedig (boed trwy lythyr, ffacs neu fath arall o gyfathrebu electronig) am y mater hwnnw i gynghorydd neu un o swyddogion eich awdurdod, dylech roi manylion am y budd yma yn y deunydd ysgrifenedig), ni roddodd y cynghorydd fanylion am ei budd personol yn ei chais cynllunio na'i deunydd ysgrifenedig yn ei neges ebost.

(4) Yn groes i baragraff 14(1)(c) (peidio â ddylanwadu ar y mater) a / neu baragraff 14(1)(d) y côd ymddwyn (peidio â chyflwyno deunydd ysgrifenedig am y mater), ceisiodd y cynghorydd ddylanwadu ar benderfyniad am ei chais cynllunio drwy anfon neges ebost at y cynghorydd a ystyriodd y cais yn rhinwedd ei rôl fel aelod o'r pwyllgor cynllunio (er bod ganddi fudd personol yn y cais o dan sylw yn ogystal â budd niweidiol oherwydd paragraff 12 (1) y côd ymddwyn)

(5) Yn groes i baragraff 6(1)(a) y côd ymddwyn, hysbysebodd y cynghorydd y cytiau fel rhai trwyddedig ond nid oedd hynny'n wir. Felly, ni wnaeth roi darlun cywir o'r sefyllfa.

(6) Gallai'r cynghorydd fod wedi cael yr hawl i siarad yng nghyfarfod y pwyllgor cynllunio a chyflwyno deunydd ysgrifenedig ar gyfer y cyfarfod yma os oedd gan rywun hawl i gyflwyno sylwadau, ond ni fyddai wedi cael ysgrifennu at aelodau'r pwyllgor heb ddatgan y budd yma. Dylai hi hefyd fod wedi datgan ei budd yn y cyfarfod cyn iddi siarad ac wedyn gadael y cyfarfod wedi iddi siarad.

<u>Cwestiwn 7</u>

Allwch chi ddisgrifio prosesau’r cyngor ar gyfer:

1. Datgan a chofrestru buddiannau cynghorwyr.
2. Derbyn rhoddion neu groeso sydd wedi’u cynnig i gynghorwyr.

<u>Ateb</u>

Mae'r gyfraith, a chôd ymddwyn y cyngor, yn mynnu i gynghorwyr ddatgan buddiannau personol. Rhaid cofnodi rhai buddiannau personol yn y gofrestr gyhoeddus statudol cyn pen 28 diwrnod ar ôl i gynghorydd gael ei ethol neu ei benodi i swydd. Rhaid diweddaru'r gofrestr cyn pen 28 diwrnod pan fo unrhyw newidiadau.

Gallech chi fod yn rhydd rhag gorfod datgelu 'gwybodaeth ddadleuol', ond dylech chi holi'r swyddog monitro am hynny. Bydd y swyddog monitro'n anfon gwybodaeth am y ffurflen berthnasol at y cynghorwyr ac yn eu hatgoffa'n rheolaidd i ddiweddaru'r gofrestr.

Mae'r cyhoedd yn cael gweld cynnwys y gofrestr gyhoeddus.

Ar wahân i hynny, wrth gyfathrebu ar lafar a thrwy lythyr yng nghyfarfodydd y cyngor, mae gofyn i gynghorwyr ddatgan buddiannau personol a niweidiol sy'n berthnasol i'r hyn sy'n cael ei drafod – boed drafodaeth lafar neu ysgrifenedig neu'n rhan o benderfyniadau pwyllgorau neu gyfarfodydd eraill. Bydd y cynghorwyr a'r swyddogion perthnasol yn nodi buddiannau o'r fath, a byddan nhw'n cael eu crybwyll yng nghofnodion y cyfarfodydd.

Mae'r swyddog monitro'n cadw cofrestr gyhoeddus am roddion a chroeso mae cynghorwyr wedi'u derbyn, hefyd. Rhaid cofrestru unrhyw roddion neu groeso gwerth dros [y lefel mae'r awdurdod wedi'i phennu] ar hyn o bryd. [Gallai pwyllgor moeseg a safonau rhai awdurdodau fod wedi nodi y byddai'n dda pe bai cynghorwyr yn tynnu sylw'r swyddog monitro at yr hyn maen nhw wedi'i wrthod hefyd, i osgoi unrhyw gyhuddiadau wedyn].

<u>Cwestiwn 7</u>

Allwch chi esbonio rolau’r canlynol?

1. Swyddog monitro
2. Pwyllgor moeseg a safonau
3. Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
4. Panel Dyfarnu Cymru

<u>Ateb</u>

1. Rhaid i bob awdurdod lleol yng Nghymru (cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol) benodi swyddog monitro. Y swyddog monitro sy'n gyfrifol am gynnal safonau moesegol a chynghori a hyfforddi cynghorwyr am y côd ymddwyn. Mae'n helpu pwyllgor safonau'r cyngor, hefyd. At hynny, mae'n gyfrifol am gynghori a hyfforddi aelodau cynghorau cymunedol am y côd ymddwyn. Ynghyd â phwyllgor moeseg a safonau'r cyngor, y swyddog monitro yw prif ffynhonnell y cynghorion a'r cyfarwyddyd am faterion safonau/moeseg a'r côd ymddwyn i gynghorwyr a swyddogion fel ei gilydd.
2. Pwyllgor moeseg a safonau. Yn ôl y gyfraith, dylai fod pwyllgor moeseg a safonau gan bob awdurdod lleol. Mae rheoliadau am eu haelodau, eu gweithdrefnau a'u pwerau. Mae gan y pwyllgor [bydd nifer yr aelodau'n amrywio yn ôl yr awdurdod] o aelodau. Rhaid i'r cadeirydd fod yn aelod annibynnol a dylai fod digon o aelodau annibynnol i sefydlu cworwm. Yn yr awdurdod hwn mae [] aelod annibynnol, []

aelod etholedig a [] aelod o gynghorau cymunedol. Dywedwch wrth y cynghorwyr faint o weithiau y bydd eich pwyllgor yn cwrdd a beth yw ei orchwyl fel sydd wedi'i amlinellu yn y cyfansoddiad. Mae'r pwyllgor yn cael penderfynu ar gyhuddiadau mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi'u cyflwyno iddo ynglŷn â thorri'r côd ymddwyn. Mae'n cael rhoi caniatâd i gynghorwyr gymryd rhan mewn materion na fyddai'r côd yn gadael iddyn nhw eu trafod fel arall, hefyd. Mae Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwilio, Caniatáu a Chyfeirio (Diwygiedig) (Cymru) 2016 yn galluogi swyddogion monitro i gyfeirio mater at bwyllgor safonau awdurdod arall gyda sêl bendith ysgrifenedig y cadeirydd. Drwy'r rhain y caiff cyd-bwyllgorau safonau eu sefydlu.

3. Bydd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ymchwilio i gwynion mae pobl wedi'u cyflwyno ynglŷn â'r modd mae cyrff cyhoeddus wedi'u trin a'u trafod, gan hybu gweinyddu da a safonau uchel ymddwyn. Bydd yn ymchwilio i gwynion bod cynghorwyr wedi torri'r côd ymddwyn, hefyd. Mae'r gyfraith yn amlinellu sut mae'n cael penderfynu a ddylai ymchwilio i gwynion neu beidio a sut dylai roi ei adroddiad gerbron pwyllgor moeseg a safonau cyngor neu Banel Dyfarnu Cymru wedyn.
4. Mae Panel Dyfarnu Cymru yn gorff annibynnol gafodd ei sefydlu trwy Ran 3 Deddf 'Llywodraeth Leol' 2000. Ei rôl yw sefydlu tribiwnlysoedd i ystyried a yw aelodau etholedig neu gyfetholedig o gynghorau sirol/bwrdeistref sirol ac awdurdodau'r heddluoedd, y gwasanaethau tân/achub a'r parciau cenedlaethol wedi torri côd ymddwyn statudol eu hawdurdod. Bydd y panel yn ystyried apeliadau cynghorwyr yn erbyn penderfyniadau pwyllgorau safonau eu hawdurdodau, hefyd. I apelio yn erbyn penderfyniad pwyllgor safonau, rhaid i gynghorydd ofyn i Banel Dyfarnu Cymru am ganiatâd i wneud hynny yn y lle cyntaf. Fel arfer, bydd gan dribiwnlys dri aelod ac un o aelodau cyfreithiol y panel fydd y cadeirydd. Ynglŷn ag achosion mae'r Ombwdsmon wedi'u cyflwyno iddo, bydd tribiwnlys yn cael cosbi cynghorwyr mewn amryw ffyrdd megis eu gwahardd rhag y swydd yn llawn neu'n rhannol am hyd at flwyddyn neu eu rhwystro rhag bod yn gynghorydd am hyd at bum mlynedd.

**Atodiad 3**

**Ymarfer ynglŷn â buddiannau**

## 1. Y Cynghorydd Arkwright

Mae'r Cynghorydd Fawlty yn berchen ar un o'r siopau nwyddau pob dydd mwyaf mewn tref ar lan y môr. Mae e'n aelod o bwyllgor cynllunio a phwyllgor trwyddedu'r cyngor. Mae bwriad i drafod y ceisiadau canlynol yn ystod y cyfarfod nesaf:

(a) cais gan orsaf betrol leol i adeiladu estyniad fydd yn cynnwys siop fwy sy'n gallu cynnig dewis gwell o nwyddau pob dydd i'w cwsmeriaid yn yr un dref;

(b) cais gan berchennog siop nwyddau pob dydd mewn tref 10 milltir i ffwrdd i adeiladu maes parcio ar dir y tu ôl i'r siop nwyddau pob dydd.

(c) cais gan berchennog siop bapur newydd ar gyrion y dref am drwydded i werthu alcohol. Mae'r Cynghorydd Arkwright yn ymwneud ag achos cyfreithiol yn erbyn hwnnw am berchnogaeth darn o dir, hefyd.

## 2. Y Cynghorydd Stokes

- Mae'r Cynghorydd Stokes yn gwirfoddoli gyda thîm criced lleol i bobl ifainc. Mae'r tîm yn ymarfer ar gae mae'r cyngor yn berchen arno.

- Mae'r cyngor yn ystyried gwerthu'r cae i gwmni adeiladu lleol a hoffai godi fflatiau yno. Pwyllgor yr ardal fydd yn gyfrifol am y penderfyniad terfynol ar ôl ystyried adroddiad pennaeth gwasanaeth eiddo'r cyngor. Y Cynghorydd Stokes sy'n cynrychioli'r ward dan sylw.

- Fydd y Cynghorydd Stokes ddim yn mynd i'r cyfarfod gan y bydd ar wyliau. Mae'n bwriadu anfon neges ebost at bennaeth gwasanaeth eiddo'r cyngor cyn mynd, fodd bynnag, i ddweud pa mor bwysig yw'r tîm criced i bobl ifanc y fro. Fe hoffai gwrdd â'r swyddog sy'n ymdrin â'r mater, hefyd.

## 3. Y Cynghorydd Jones

Mae'r Cynghorydd Jones yn aelod o bwyllgor cynllunio'r cyngor. Yn ystod ei gyfarfod nesaf, bydd y pwyllgor yn trafod y ddau gais canlynol:

(a) Cais gan gwmni sydd am godi adeilad gweinyddol bychan mewn ardal gadwraeth. Mae un o uwch reolwyr y cwmni'n briod â chyfnither y Cynghorydd Jones.

(b) Cais am godi ystafell ddosbarth newydd ar gyfer ysgol gynradd leol. Mae'r Cynghorydd Jones yn un o lywodraethwyr yr ysgol.

**Atodiad 4**
**Ymarfer ynglŷn â buddiannau – awgrymu rhai atebion**

**1. Y Cynghorydd Arkwright**

**Oes ganddo fudd personol?**

- Ym mhob mater, rhaid i gynghorydd ystyried a oes ganddo fudd personol ac a ddylai ei ddatgelu. [10. (1)]

- Byddai ganddo fudd personol pe bai'n effeithio ar unrhyw waith neu fusnes mae'n ymwneud ag e, neu'n debygol o effeithio arno. [10 (2)(a) (i)]

- Fyddai penderfyniad ar y cais yn effeithio ar fusnes y Cynghorydd Arkwright?

- Bydd ganddo fudd personol os yw'n rhesymol ystyried y bydd penderfyniad ar y mater yn effeithio ar les neu sefyllfa ariannol y cynghorydd ei hun neu rywun mae'n ei adnabod yn dda, a hynny i raddau mwy na'r rhan fwyaf o bobl eraill y ward neu'r adran etholiadol. [10 (2) (c) (i)]

- *'Ymhlith y bobl rydych chi'n eu hadnabod yn dda, gallai fod rhywun rydych chi wedi bod mewn anghydfod ag e. Gallai fod lle i ystyried y byddwch chi am beri anfantais i hwnnw.' (Cyfarwyddyd yr Ombwdsmon)*

**Ydy'n fudd niweidiol?**

- Oes eithriad yn ôl y côd? [paragraffau 12(2) a (3)]

- Fyddai'n rhesymol i rywun sy'n gwybod y ffeithiau perthnasol ystyried bod y budd mor sylweddol fel ei fod yn debygol o amharu ar y modd mae'r cynghorydd yn asesu lles y cyhoedd? [12(1)]

- *'Lle rydych chi wedi bod mewn anghydfod â rhywun allai fod dan anfantais yn sgîl penderfyniad, gallai aelod rhesymol o'r cyhoedd a chanddo'r wybodaeth berthnasol ddod i'r casgliad y byddech chi'n pleidleisio i'r perwyl hwnnw, boed hynny'n wir neu beidio.'* Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol Cymru, Canllawiau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

**Beth y dylai ei wneud?**

- Os yw'n fudd niweidiol, fe ddylai'r cynghorydd weithredu fel a ganlyn oni bai bod pwyllgor y safonau wedi caniatáu iddo wneud fel arall:

  - gadael yr ystafell neu'r man lle mae cyfarfod yn ystyried y mater. [14(1)] oni bai bod gan rywun yr hawl i wneud sylwadau yn y cyfarfod, gall yntau hefyd ddefnyddio'r un hawl i siarad ar yr amod y bydd yn gadael yr ystafell cyn trafod y mater, neu gall gyflwyno deunydd ysgrifenedig i'r cyfarfod. Dylai ddatgan ei fudd o hyd ac egluro natur y budd yma.

**2. Y Cynghorydd Stokes**

- Ym mhob mater, rhaid i gynghorydd ystyried a oes ganddo fudd personol ac a ddylai ei ddatgelu. [10. (1)]

- Bydd ganddo fudd os yw'r mater yn ymwneud â chlwb preifat, cymdeithas neu fudiad mae'n aelod ohono neu'n rheolwr iddo ym mro'r awdurdod, neu os yw'r mater yn debygol o effeithio ar sefydliad o'r fath.
  [10 (2) (a) (ix)]

- Mae angen rhagor o wybodaeth am union natur perthynas y cynghorydd â'r clwb. Beth fyddai'r sefyllfa pe bai'n aelod o bwyllgor rheoli'r clwb?

**Ydy'n fudd niweidiol?**

- Oes eithriad yn ôl y côd? [paragraffau 12(2) a (3)]

- Fyddai'n rhesymol i rywun sy'n gwybod y ffeithiau perthnasol ystyried bod y budd mor sylweddol fel ei fod yn debygol o amharu ar y modd mae'r cynghorydd yn asesu lles y cyhoedd? [12(1)]

**Beth y dylai ei wneud?**

- Os dim ond budd personol yw e, rhaid ei ddatgelu mewn unrhyw gyfarfod lle mae'r mater dan sylw ac mewn unrhyw lythyr, neges ac ati at gynghorydd neu swyddog yn yr awdurdod. [paragraff 11]

- Os yw'n fudd niweidiol, fe ddylai'r cynghorydd weithredu fel a ganlyn oni bai bod pwyllgor y safonau wedi caniatáu iddo wneud fel arall:
  - peidio â cheisio dylanwadu ar y penderfyniad am y mater;
  - peidio â chyflwyno deunydd ysgrifenedig (boed trwy lythyr, ffacs neu fath arall o gyfathrebu electronig) am y mater hwnnw. [14(1) (c) a (d)]

*'..ddylech chi ddim ceisio dylanwadu ar benderfyniad mae gyda chi budd niweidiol ynddo. Mae'r rheol hon yn debyg i'r gofyn cyffredinol na ddylech chi ddefnyddio'ch statws mewn modd amhriodol er mantais/anfantais i chi neu rywun arall.'*

- Oes rhywun arall sy'n gallu trafod y mater gyda'r cyngor ar ran y clwb?

- Dylai'r budd (sef, ymwneud â chlwb ieuenctid) gael ei gofnodi yng nghofrestr y cyngor am fuddiannau ei gynghorwyr.

**3. Y Cynghorydd Jones**

(a) Dylai'r cynghorydd ystyried a oes ganddi fudd personol a niweidiol yn y cais am ganiatâd cynllunio. Yn ôl paragraff 10 (2) (c) (i), byddai ganddi fudd personol pe bai'r penderfyniad yn effeithio ar ei les neu ei sefyllfa ariannol neu les/sefyllfa ariannol rhywun mae'n byw gydag e neu rywun mae'n ei adnabod yn dda.
Mae'n aneglur beth yw perthynas y cynghorydd â'r uwch reolwr. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi canllawiau i helpu i'w diffinio:
*'Ymhlith pobl rydych chi'n eu hadnabod yn dda byddai cyfeillion agos, cydweithwyr rydych chi'n arbennig o agos atyn nhw, pobl rydych chi'n ymwneud â nhw trwy'ch gwaith a'ch perthnasau agos. Dyw'r diffiniad ddim yn cynnwys y rhai o'ch cydnabod, y rhai sy'n perthyn ichi o bell na'r rhai y byddwch chi'n cwrdd â nhw trwy'ch gwaith yn gynghorydd neu'ch gwaith yn y gymuned.'*

(b) Mae ganddi fudd personol am fod corff llywodraethu'r ysgol yn gorff mae'r cyngor wedi'i hethol, ei phenodi neu ei henwebu iddo. [10(2)(a)(viii)]
Mae'r cyrff o'r fath wedi'u heithrio yn y côd ac, felly, fydd y budd ddim yn un niweidiol, fel arfer. [12(2) (a) (iii)]
Fydd yr eithriad hwnnw ddim yn berthnasol, fodd bynnag, am fod y mater dan sylw'n ymwneud â chymeradwyo, caniatáu, trwyddedu neu gofrestru. Felly, rhaid defnyddio'r meini prawf cyffredinol i benderfynu a yw'r budd yn un niweidiol. [10(3)]

**RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y PWYLLGOR SAFONAU**

***SYLWER BOD Y RHAGLEN I'W DOSBARTHU 1 WYTHNOS CYN Y CYFARFOD***

| DYDDIAD Y CYFARFOD | EITEMAU / MEYSYDD ADRODDIAD | AWDUR YR ADRODDIAD |
|---|---|---|
| | | |
| **30 Mehefin 2017** | Eitem Sefydlog: Presenoldeb mewn Cyfarfodydd | Amh. |
| | Eitem Sefydlog: Llyfr Achos Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | Eitem Sefydlog: Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | Eitem Sefydlog Rhan 2: Trosolwg o Gwynion yn Sir Ddinbych | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | | |
| | | |
| | | |
| **22 Medi 2017** | Eitem Sefydlog: Presenoldeb mewn Cyfarfodydd | Amh. |
| | Eitem Sefydlog: Llyfr Achos Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | Eitem Sefydlog: Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | Eitem Sefydlog Rhan 2: Trosolwg o Gwynion yn Sir Ddinbych | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | | |
| | | |
| | | |
| **24 Tachwedd 2017** | Eitem Sefydlog: Presenoldeb mewn Cyfarfodydd | Amh |
| | Eitem Sefydlog: Llyfr Achos Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | Eitem Sefydlog: Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Safonau | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | Eitem Sefydlog Rhan 2: Trosolwg o Gwynion yn Sir Ddinbych | Gary Williams (Swyddog Monitro) |
| | | |

Diweddarwyd 06/12/2016 - KEJ

Yn rhinwedd Paragraff(au) 12, 13 Rhan 4, Atodlen 12A
Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Document is Restricted

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag